Dogfen ir Cyhoedd

| GŴYS A RHAGLEN | SUMMONS AND AGENDA |
|---|---|
| ar gyfer | for a |
| CYFARFOD O GYNGOR SIR YNYS MÔN | MEETING OF THE ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL |
| ar | on |
| DYDD MAWRTH 21 MAI 2024 | TUESDAY 21 MAY 2024 |
| ➔ am 10:30 o'r gloch yb ← | ➔ at 10:30 am ← |

***Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod.***

**R H A G L E N**

**1. COFNODION**

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft o gyfarfod y Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 7 Mawrth 2024.

**2. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem of fusnes.

**3. DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR NEU'R PRIF WEITHREDWR**

**4. CYFLWYNO DEISEBAU**

Derbyn unrhyw ddeiseb yn unol â Pharagraff 4.1.11 y Cyfansoddiad.

**5. ADRODDIAD BLYNYDDOL ARWEINYDD Y CYNGOR 2023/24**

Ystyried adroddiad Blynyddol Arweinydd y Cyngor yn unol â Pharagraff 4.1.16 y Cyfansoddiad.

**6. ADRODDIAD BLYNYDDOL TROSOLWG A SGRIWTINI 2023/24**

Cyflwyno adroddiad gan Gadeiryddion y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio.

**7. CYNLLUN STRATEGOL RHEOLI ASEDAU CORFFORAETHOL 2024-2029**

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo, fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 19 Mawrth 2024.

**8. SWYDDOGAETH DEWIS LLEOL: PERFFORMIAD**

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro, yn dilyn Penderfyniad Portffolio a wnaed gan y Deilydd Portffolio ar gyfer Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer ar 29 Ebrill 2024.

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 7 Mawrth 2024

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd Margaret Murley Roberts (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Glyn Haynes (Is-gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Geraint Bebb, Non Dafydd, Paul Ellis, Jeff M Evans, Neville Evans, T Ll Hughes MBE, Llinos Medi, Aled M Jones, Carwyn Jones, Dyfed Wyn Jones, G O Jones, R Ll Jones, Euryn Morris, Pip O'Neill, Derek Owen, Llio Angharad Owen, Gary Pritchard, Dylan Rees, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Keith Roberts, Nicola Roberts, Ken Taylor, Dafydd Rhys Thomas, Alwen Pennant Watkin, Robin Williams, Sonia Williams, Liz Wood ac Arfon Wyn |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Dirprwy Brif Weithredwr,<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151,<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro,<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc,<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai,<br>Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo,<br>Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid,<br>Pennaeth Democratiaeth,<br>Cyfreithiwr – Llywodraethiant Corfforaethol a Chontractau (MY),<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol (ar gyfer eitem 12 yn unig),<br>Rheolwr Adnoddau Dynol (CW) (ar gyfer eitem 12 yn unig),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Neb |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Douglas M Fowlie, John Ifan Jones, Jackie Lewis ac Ieuan Williams.<br><br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol,<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd. |

**1. COFNODION**

Cadarnhawyd bod cofnodion cyfarfod arbennig y Cyngor Sir, a gynhaliwyd ar 19 Rhagfyr 2023, yn gywir.

## 2. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Datganodd y Cynghorydd Sonia Williams ddiddordeb personol gan ei bod yn wraig i'r Aelod Portffolio Cyllid.

Datganodd y Prif Swyddogion ddiddordeb personol sylweddol yn Eitem 12 – Polisi Datganiad Tâl 2024 ac nid oeddent yn bresennol yn ystod y drafodaeth na'r bleidlais ar yr eitem honno.

## 3. DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR NEU'R PRIF WEITHREDWR

Gwnaeth y Cadeirydd y cyhoeddiadau a ganlyn:-

- Roedd y Cadeirydd yn dymuno diolch i Menter Môn am drefnu nifer o orymdeithiau i nodi dydd Gŵyl Dewi. Dywedodd iddi gael y fraint o fynychu gorymdaith Llangefni a braf oedd gweld cymaint o blant ysgol ifanc lleol yn dathlu eu Cymreictod. Bu ysgolion Môn yn dathlu dydd Gŵyl Dewi hefyd. Cafodd plant Ysgol Henblas neges fideo arbennig iawn gan Archdderwydd Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Mererid Hopwood.

- Cyfeiriodd y Cadeirydd at Ŵyl Gorawl Gogledd Cymru a gynhaliwyd yn Llandudno dros y penwythnos ac roedd Côr Ieuenctid Môn yn fuddugol yng nghategori Corau Sioe ac yn ail yn y categori Lleisiau Ifanc.

- Llongyfarchiadau i Mr Tom Bown o Lannerch-y-medd. Mae Mr Bown wedi bod yn mesur glawiad bob diwrnod ers 1948 ac mae'n parhau traddodiad teuluol a gychwynnodd gyda'i daid. Cafodd ei anrhydeddu am ei wasanaeth yn ddiweddar gan y Swyddfa Dywydd a Chyfoeth Naturiol Cymru.

- Llongyfarchiadau i Mr Peter Jones o Ynys Môn sydd wedi derbyn MBE yn ddiweddar fel cydnabyddiaeth am ei wasanaeth tuag at dir mawn Cymru. Mae Mr Jones yn Uwch Ymgynghorydd gyda Chyfoeth Naturiol Cymru ac mae'n arbenigo mewn ecosystemau mawn ar hyd a lled Cymru.

- Dymunodd y Cadeirydd yn dda i Siop Sglodion Finneys ym Menllech sydd wedi cyrraedd rownd derfynol categori 'Tec-awê y Flwyddyn' yng ngwobrau cenedlaethol y *National Federation of Fish Fryers*. Rhain yw gwobrau mwyaf mawreddog y diwydiant.

- Llongyfarchiadau i Mr Tomos Parry, sydd yn wreiddiol o Ynys Môn, am ennill ei ail seren Michelin. Enillodd ei seren gyntaf yn 2018 am ei fwyty 'Brat' yn Llundain ac yn awr mae wedi llwyddo i ennill ei ail seren gyda'i fwyty newydd 'Mountain'.

- Llongyfarchiadau i'r athletwraig ifanc, Eli Jones, ar ddod yn bencampwr dan 20 Cymru ar y 60 medr a'r 200 medr dan do.

- Llongyfarchiadau hefyd i Meinir Thomas, o Langefni, sydd wedi ei dewis yn aelod o garfan hoci dros 55 oed Meistri Cymru unwaith yn rhagor. Bydd yn cystadlu mewn tair cystadleuaeth – sef Pencampwriaeth y Gwledydd Cartref yn Nottingham,

cystadleuaeth pedwar gwlad yn yr Almaen, a Chwpan y Byd yn Seland Newydd ym mis Tachwedd.

*        *        *        *        *

Cydymdeimlwyd â theulu'r cyn Gynghorydd Vaughan Hughes, a fu farw ar ddechrau'r flwyddyn. Bu Mr Hughes yn gynghorydd sir am ddeng mlynedd a chyn hynny, roedd yn ddarlledwr adnabyddus, yn gyflwynydd ac yn gynhyrchydd teledu. Bu hefyd yn golygu cylchgrawn barn hyd at ei farwolaeth. Treuliodd y rhan fwyaf o'i fywyd ym Môn ac roedd yn frwd dros yr Ynys. Bydd gwobr goffa flynyddol yn ei enw'n cael ei sefydlu yn Eisteddfod Môn.

Cydymdeimlwyd hefyd â theulu Mr Iolo 'Trefri' Owen a fu farw'n ddiweddar. Roedd yn amaethwr ac yn ddyn busnes arloesol. Cafodd y fraint yn 2021 o agor Ffair Aeaf Môn fel cydnabyddiaeth am ei gyfraniad aruthrol i'r byd amaeth ar yr Ynys.

Cydymdeimlwyd â theulu'r diweddar Ms Bethan James a oedd yn ymgynghorydd gyda GwE ac yn mynychu cyfarfodydd CYSAG y Cyngor.

Cydymdeimlwyd ag unrhyw Aelod o'r Cyngor Sir neu Staff sydd wedi cael profedigaeth yn ddiweddar.

Safodd Aelodau a Swyddogion fel arwydd o barch.

**4. CYFLWYNO DEISEBAU**

Ni dderbyniwyd yr un ddeiseb.

**5. ADOLYGIAD RHEOLI TRYSORLYS CANOL BLWYDDYN 2023/24**

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151, fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 20 Chwefror 2024, i'r Cyngor ei dderbyn.

**PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn yr Adroddiad Adolygiad Rheoli Trysorlys Canol Blwyddyn ar gyfer 2023/24.**

**6. DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLI TRYSORLYS 2024/25**

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151, fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 20 Chwefror 2024, i'r Cyngor ei dderbyn.

**PENDERFYNWYD yn unfrydol i gymeradwyo'r Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2024/25.**

**7. STRATEGAETH GYFALAF 2024 - 2029**

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151, fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 29 Chwefror 2024, i'r Cyngor ei dderbyn.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Cyllid bod Côd Darbodus diwygiedig CIPFA (Medi 2017) yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lunio strategaeth gyfalaf. Mae'n rhaid i'r strategaeth osod y cyd-destun tymor hir ar gyfer gwneud penderfyniadau ynglŷn â gwariant cyfalaf a buddsoddi. Bwriad y gofyniad hwn yw sicrhau bod awdurdodau'n gwneud penderfyniadau ynglŷn â chyfalaf a buddsoddi yn unol ag amcanion gwasanaeth, a'u bod yn rhoi ystyriaeth lawn i stiwardiaeth, gwerth am arian, doethineb, cynaliadwyedd a fforddiadwyedd.

Gofynnodd y Cynghorydd Robert Ll Jones beth yw cyfanswm yr arian a fenthycwyd i adeiladu ysgolion newydd ar yr Ynys, a faint o log sy'n cael ei dalu bob blwyddyn ar y benthyciadau hynny. Mewn ymateb, dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod y swm a fenthycir yn ddibynnol ar faint o adnoddau ariannol sydd ar gael i'r Cyngor. Mae'n ddibynnol hefyd ar gyfraddau llog ar y pryd, yr amser gorau i fenthyca a hyd y benthyciadau. Awgrymodd y Swyddog bod y Cynghorydd Jones ysgrifennu at yr Adran Gyllid i ofyn am y wybodaeth a geisir ganddo am fenthyciadau a gafwyd i adeiladu ysgolion newydd.

**PENDERFYNWYD yn unfrydol i dderbyn y Strategaeth Gyfalaf ar gyfer y blynyddoedd ariannol 2024/25 i 2028/2029.**

## 8. CYLLIDEB 2024/25

Cyflwynwyd – adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151, fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 29 Chwefror 2024.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Cyllid mai dyma'r gyllideb fwyaf heriol i gael ei chyflwyno, a hynny oherwydd y setliad a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru a'r ffaith fod chwyddiant yn uchel. Ar ddechrau'r broses o osod y gyllideb roedd bwlch o £14.391 rhwng y gyllideb refeniw ddigyfnewid a'r cyllid oedd ar gael cyn cynyddu'r Dreth Gyngor. Ym mis Ionawr 2024, roedd y Pwyllgor Gwaith yn cynnig cyllideb gychwynnol o £184.219m ar gyfer 2024/25. Roedd hyn yn seiliedig ar Gyllid Allanol Cyfun o £126.973m ac i gydbwyso'r gyllideb byddai angen cynnydd o 10.9% yn y Dreth Gyngor, yn ogystal â defnyddio £4.425m o gronfeydd cyffredinol y Cyngor. Er gwaetha'r amserlen fer rhwng cyhoeddi cynigion y gyllideb gychwynnol a'r terfyn amser ar gyfer gosod y Dreth Gyngor, cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus. Fel rhan o'r ymgynghoriad bu'r Cyngor ymgynghori â'r Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned, Fforwm Pobl Ifanc, Fforwm Pobl Hŷn, Fforwm Cyllid Ysgolion, yn ogystal ag ymgynghoriad ar-lein. Mae'r ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i gynnwys yn Atodiad 2 yn yr adroddiad. Tra'r oedd cynigion yn cael eu llunio ar gyfer y gyllideb derfynol, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y byddai cynghorau yn Lloegr yn derbyn £600m o gyllid ychwanegol yn 2024/25. Mae Llywodraeth Cymru'n derbyn £25m o gyllid canlyniadol yn sgil hyn a bydd yr awdurdod hwn yn derbyn £332k o gyllid ychwanegol. Mae Llywodraeth Cymru wedi trosglwyddo grantiau refeniw gwerth £280k i'r setliad hefyd. Nododd yr Aelod Portffolio hefyd fod addasiadau pellach wedi'u gwneud ac maent yn cael eu rhestru yn yr adroddiad. Ychwanegodd yr Aelod Portffolio Cyllid fod Awdurdod Tân Gogledd Cymru wedi adolygu ei gynigion cyllideb terfynol gan arwain at ostyngiad o £87k yn yr ardoll a delir gan y Cyngor. Mae'r cynnydd yn y Dreth Gyngor wedi gostwng i 9.5% ac mae 0.9% o'r cynnydd hwn i'w briodoli i ardoll yr Awdurdod Tân, tra bod 8.6% yn ymwneud â gofynion cyllideb y Cyngor. Er bod y cynnydd yn y Dreth Gyngor yn sylweddol, fel y mae ym mhob awdurdod lleol arall, y Cyngor hwn fydd â'r Dreth Gyngor isaf yng Ngogledd Cymru. Bydd cynnydd o £136.44 yn y Dreth Gyngor ar gyfer eiddo Band D, a bydd cyfanswm y gost ar gyfer eiddo Band D felly yn £1,572.30 y flwyddyn.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Cyllid fod y sefyllfa ariannol ychydig yn well na'r disgwyl ar gychwyn y broses gosod cyllideb. Er bod cyllidebau ysgolion wedi cynyddu, mae'r Pwyllgor Gwaith wedi penderfynu gostwng y cap ar y cynnydd i ysgolion o 2.5% yn is na chwyddiant i 1.5% yn is na chwyddiant, a bydd ysgolion hefyd yn derbyn £250k o arian ychwanegol yn 2024/25. Mae'r gyllideb arfaethedig yn cynnwys nifer o ragdybiaethau ynglŷn â lefelau tebygol incwm a gwariant yn y dyfodol ac mae'n anorfod fod y gyllideb arfaethedig yn cynnwys nifer o risgiau ariannol cynhenid. Dywedodd hefyd fod y Swyddog Adran 151 yn argymell na ddylai'r arian wrth gefn ddisgyn yn is na 5% o'r gyllideb refeniw net. Rhagwelir y bydd cyfanswm y cronfeydd wrth gefn yn £10.79m ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, sef 5.88% o'r gyllideb refeniw net. Dywedodd fod y cyllid a dderbyniwyd tuag at brosiectau cyfalaf wedi gostwng ond gosodwyd cyllideb o £43.838m. Derbyniwyd grant gwerth £2.22m gan Lywodraeth Cymru, yn ogystal â £2.164m o fenthyca gyda chymorth. Nododd fod y rhan fwyaf o brosiectau cyfalaf yr Awdurdod yn cael eu hariannu o'r Cyfrif Refeniw Tai (CRT), sydd wedi'i neilltuo ar gyfer gwariant ar y stoc dai.

Cynigiodd yr Aelod Portffolio Cyllid yr argymhellion i'r Cyngor llawn, fel y'u nodir yn (a), (b) ac (c) yn yr adroddiadau.

Dywedodd y Cynghorydd Robert Ll Jones fod llywodraeth leol yn wynebu cyfnod heriol gan fod llai o adnoddau ar gael a bydd rhaid i awdurdodau lleol ystyried ffyrdd arloesol i helpu pobl fregus yn y gymdeithas sydd angen gwasanaethau'r Cyngor ac ymateb i'r heriau ariannol y mae pobl yn eu hwynebu oherwydd yr argyfwng costau byw. Roedd yn dymuno diolch i staff y Cyngor am eu gwaith, yn arbennig yn ystod y pandemig. Ychwanegodd hefyd bod angen uwchraddio'r stoc dai oherwydd problemau lleithder a bod angen gosod systemau gwresogi newydd. Dywedodd y Cynghorydd Jones bod angen i'r Cyngor gynnig prentisiaethau ac mae angen iddo fod yn fwy tryloyw ynglŷn â gwaith y Cyngor.

Mewn ymateb, dywedodd y Prif Weithredwr bod y pandemig yn gyfnod heriol i bawb, ac roedd rôl staff y Cyngor yn allweddol o ran diogelu trigolion. Nododd fod adroddiad ar wersi a ddysgwyd yn sgil y pandemig wedi'i gyflwyno'n barod i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol. Yn yr un modd a'r holl awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, mae'r Cyngor yn darparu gwybodaeth ar gyfer yr Ymchwiliad Covid Cenedlaethol sy'n cael ei gynnal ar hyn o bryd. Mewn ymateb i'r sylw bod angen i'r Cyngor fod yn fwy tryloyw, dywedodd fod cyfarfodydd y Cyngor yn cael eu gwe-ddarlledu, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 2021, a'u bod ar gael ar wefan y Cyngor am 6 mis. Dywedodd hefyd fod modd gweld gwybodaeth am waith y Cyngor ar y wefan.

Dywedodd y Cynghorydd Aled M Jones ei fod yn derbyn bod gosod cyllideb yn ystod y cyfnod heriol hwn yn dasg anodd a'i fod o'r farn bod angen adolygu'r modd y caiff awdurdodau lleol ar hyd a lled y DU eu hariannu, a hynny ar frys. Er iddo gydnabod bod Treth Gyngor yr Awdurdod hwn ymysg yr isaf yng Nghymru, gwelwyd cynnydd o 5.54% ar gyfartaledd yn y Dreth Gyngor yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Dywedodd fod cost y gwasanaeth casglu gwastraff gardd wedi codi o £35 i £38. Nododd fod y cyfyngiad cyflymder 20mya a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru wedi creu costau i bob awdurdod lleol ond gellid bod wedi defnyddio'r arian hwn i gynyddu'r setliad i lywodraeth leol yng Nghymru. Mae'r premiwm ar ail gartrefi a thai gwag wedi cynyddu hefyd a gallai hyn effeithio ar bobl leol sy'n dymuno adnewyddu eu heiddo. Dywedodd ei fod ar ddeall hefyd ei bod yn anodd i rai cwmnïau lleol ar Ynys Môn ennill contractau ar yr ynys. Dywedodd y

Cynghorydd Jones hefyd fod gan y Cyngor werth £10m o arian wrth gefn cyffredinol, yn ogystal â gwerth £13m o gronfeydd wedi'u neilltuo. Dywedodd y byddai'n pleidleisio yn erbyn cynnydd o 9.5% yn y Dreth Gyngor gan ei fod o'r farn nad yw cymunedau'n gallu fforddio'r fath gynnydd.

Roedd y Cynghorydd Jeff Evans o'r farn bod angen i'r Cyngor adolygu sut mae gwasanaethau'n cael eu hariannu ac y dylid defnyddio arian wrth gefn i leihau'r cynnydd sylweddol yn y Dreth Gyngor.

Mewn ymateb i'r sylwadau a wnaed, dywedodd yr Aelod Portffolio Cyllid fod y flwyddyn ariannol nesaf, sef 2025/2026, yn debygol o fod yn heriol iawn ac ni fyddai'n ddoeth defnyddio rhagor o arian wrth gefn i gydbwyso'r gyllideb.

Yn dilyn y bleidlais pan bleidleisiodd 25 o blaid, 6 yn erbyn a ni fu i neb atal eu pleidlais,

**PENDERFYNWYD:-**

- **Cymeradwyo'r gyllideb gyfalaf ar gyfer 2023/2024.**
- **Derbyn y Penderfyniad drafft ar y Dreth Gyngor a nodir fel (c) ar y Rhaglen :-**

**1. PENDERFYNWYD**

**(a)** Yn unol ag argymhellion y Pwyllgor Gwaith, mabwysiadu Cyllideb 2024/25, yn Adran 5, fel Strategaeth Cyllideb yn unol â'r ystyr a roddir yn y Cyfansoddiad a chadarnhau y daw'n rhan o'r fframwaith cyllidebol, ac eithrio'r ffigyrau a ddisgrifir fel rhai cyfredol.

**(b)** Yn unol ag argymhellion y Pwyllgor Gwaith, mabwysiadu cyllideb refeniw ar gyfer 2024/25 fel y'i gwelir yn 4.2 yn Adran 4 o adroddiad y Gyllideb 2024/25, Atodiad 1 ac Atodiad 2.

**(c)** Yn unol ag argymhellion y Pwyllgor Gwaith, mabwysiadu cyllideb gyfalaf fel y'i gwelir yn yr adroddiad ar Gyllideb Gyfalaf 2024/25.

**(ch)** Dirprwyo i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 y pŵer i wneud addasiadau rhwng penawdau yn y Cynnig ar gyfer Cyllideb Derfynol 2024/25 yn Atodiad 2 er mwyn rhoi penderfyniadau'r Cyngor ar waith. Yn ychwanegol, dirprwyo i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 y pŵer i drosglwyddo hyd at £50k fesul eitem o'r gronfa wrth gefn gyffredinol. Ar gyfer unrhyw eitem mwy na £50k bydd angen cymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn gwneir unrhyw drosglwyddiad o'r gronfa wrth gefn gyffredinol.

**(d)** Dirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith, ym mlwyddyn ariannol 2024/25, y pwerau i drosglwyddo cyllidebau rhwng penawdau fel a ganlyn:-

(i) pwerau dilyffethair i'r gwasanaethau perthnasol wario pob pennawd cyllidebol unigol yn Atodiad 2, Cynnig y Gyllideb Derfynol ar gyfer 2024/25 fesul gwasanaeth;

(ii) pwerau i ganiatáu defnyddio arian wrth gefn clustnodedig ac arian wrth gefn gwasanaethau i gyllido cynigion gwariant unwaith ac am byth sy'n cyfrannu tuag at gyflawni amcanion y Cyngor a gwella gwasanaethau;

(iii) pwerau i drosglwyddo o ffynonellau incwm newydd neu ffynonellau incwm uwch.

**(dd)** Dirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith, mewn perthynas â'r flwyddyn ariannol 2024/25 ac ar gyngor y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) – Swyddog Adran 151, y pŵer i ryddhau hyd at £250k o'r balansau cyffredinol i ddelio gyda blaenoriaethau sy'n codi yn ystod y flwyddyn.

**(e)** Dirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith, mewn perthynas â'r cyfnod hyd at 31 Mawrth 2025, y pwerau a ganlyn:-

- **(i)** pwerau i wneud ymrwymiadau newydd o gyllidebau refeniw y dyfodol hyd at y swm a nodir ar gyfer blaenoriaethau newydd yn y Cynllun Ariannol Tymor Canol;
- **(ii)** y pŵer a'r ddyletswydd i baratoi cynlluniau i gyflawni arbedion yn y gyllideb refeniw fel yr awgrymir yn y Cynllun Ariannol Tymor Canol;
- **(iii)** pwerau i drosglwyddo cyllidebau rhwng prosiectau cyfalaf yn yr adroddiad Cyllideb Cyfalaf 2024/25 ac ymrwymo adnoddau yn y blynyddoedd dilynol gan gydymffurfio â'r fframwaith cyllidebol.

**(f)** Pennu a chymeradwyo'r dangosyddion pwyllog a thrysorlys sydd yn amcangyfrifon a therfynau am 2024/25 ymlaen, fel sy'n ymddangos yn yr adroddiad ar y Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys 2024/25.

**(ff)** Cymeradwyo'r Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys am 2024/25 a'r Strategaeth Cyfalaf 2024/25.

**(g)** Cadarnhau y bydd eitemau 1(b) i (ff) yn dod yn rhan o'r fframwaith cyllidebol.

**2.** **PENDERFYNWYD** mabwysiadu a chadarnhau i bwrpas y flwyddyn ariannol 2024/25 benderfyniad y Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 10 Mawrth 1998 i bennu lefel y disgownt sy'n gymwys i Ddosbarth penodedig A a Dosbarth penodedig B o anheddau o dan Adran 12 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (fel y'i diwygiwyd), fel y disgrifir yn Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) 1998, fel a ganlyn:-

| | |
|---|---|
| Dosbarth Penodedig A | Dim Disgownt |
| Dosbarth Penodedig B | Dim Disgownt |

**3.** **PENDERFYNWYD** mabwysiadu a chadarnhau i bwrpas y flwyddyn ariannol 2024/25 benderfyniad y Cyngor Sir a gynhaliwyd ar 6 Mawrth 2007 i bennu lefel y disgownt sy'n gymwys i Ddosbarth penodedig C o anheddau o dan Adran 12 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (fel y'i diwygiwyd), fel y disgrifir yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen Treth Gyngor) a'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) (Diwygio) 2004, fel a ganlyn:-

| | |
|---|---|
| Dosbarth Penodedig C | Dim Disgownt |

**4.** **PENDERFYNWYD** datgymhwyso unrhyw ddisgownt(au) a ganiatawyd i anheddau gwag tymor hir ac anheddau a feddiannir yn achlysurol (a elwir fel arfer yn ail gartrefi) ac amrywio penderfyniad y Cyngor llawn a wnaed ar 28 Chwefror 2018 ac, ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25, i godi swm uwch o'r Dreth Gyngor (a elwir yn bremiwm y Dreth Cyngor) o 100% o gyfradd safonol y Dreth Gyngor ar gyfer anheddau gwag hirdymor neu ar gyfer anheddau a feddiannir yn achlysurol (a elwir fel arfer yn ail gartrefi) i godi swm uwch o Dreth Gyngor (a elwir yn bremiwm y Dreth Gyngor) o dan Adrannau 12A a 12B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 fel y'i mewnosodwyd gan Adran 139 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

**5.** Nodi fod y Cyngor yn ei gyfarfod ar 28 Chwefror 1996 wedi penderfynu na fydd yn trin unrhyw gostau a geir gan y Cyngor mewn rhan o'i ardal nac wrth gyfarfod unrhyw ardoll neu ardoll arbennig fel costau arbennig a bod y penderfyniadau i barhau mewn grym hyd oni fyddant yn cael ei diddymu'n benodol.

**6.** Y dylid nodi bod y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 28 Tachwedd 2023 wedi cymeradwyo'r symiau a gyfrifwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn fel sail y Dreth Gyngor ar gyfer 2024/25 a nodi ymhellach bod y Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 11 Rhagfyr 2018 wedi cymeradwyo y bydd y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yn parhau fel y mae am y blynyddoedd dilynol oni bai ei fod wedi'i ddiwygio'n sylweddol. Nodwyd hefyd fod y Cyngor llawn yn ei gyfarfod ar 28 Chwefror 2018 wedi mabwysiadu a chymeradwyo Polisi Dewisol y Dreth Gyngor o dan Adran 13A Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 gan ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith y pŵer i ddirymu, ailddeddfu ac/neu ddiwygio'r Polisi. Diwygiodd y Pwyllgor Gwaith y Polisi hwn ar 03 Mawrth 2022.

**7.** Yn ei gyfarfod ar 28 Tachwedd 2023, penderfynodd y Pwyllgor Gwaith, yn unol â Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen Treth Gyngor)(Cymru) 1995 (SI19956/2561), fel y'i diwygiwyd gan SI1999/2935, a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen Treth Gyngor) a'r Dreth Gyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau)(Cymru)(Diwygio) 2004, a Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen Treth Gyngor)(Cymru)(Diwygio) 2016, gymeradwyo'r symiau a gyfrifwyd gan Gyngor Sir Ynys Môn fel sail y dreth ac ar gyfer rhannau o'r ardal, am y flwyddyn 2024/25, fel a ganlyn:-

**a)** **33,170.03** yw'r swm a bennwyd gan y Pwyllgor Gwaith fel sail treth gyngor Cyngor Sir Ynys Môn am y flwyddyn.

**b)** Y rhannau o ardal y Cyngor, sef y symiau a gyfrifwyd gan y Pwyllgor Gwaith fel y sail ar gyfer treth gyngor Cyngor Sir Ynys Môn am y flwyddyn ar gyfer anheddau yn y rhannau hynny o'i ardal lle mae un neu fwy o eitemau arbennig yn berthnasol, yw fel a ganlyn:-

| **Ardaloedd Cynghorau Tref/Cymuned** | **Sylfaen y Dreth 2024/25** |
|---|---:|
| Amlwch | 1,553.58 |
| Biwmares | 1,128.28 |
| Caergybi | 4,122.23 |
| Llangefni | 2,104.10 |
| Porthaethwy | 1,503.94 |
| Llanddaniel-fab | 376.52 |
| Llanddona | 417.01 |
| Cwm Cadnant | 1,231.69 |
| Llanfair Pwllgwyngyll | 1,342.23 |
| Llanfihangel Ysgeifiog | 714.29 |
| Bodorgan | 483.02 |
| Llangoed | 698.88 |
| Llangristiolus a Cerrigceinwen | 645.03 |
| Llanidan | 436.75 |
| Rhosyr | 1,061.51 |
| Penmynydd | 252.52 |
| Pentraeth | 603.97 |
| Moelfre | 692.31 |
| Llanbadrig | 708.58 |
| Llanddyfnan | 523.53 |
| Llaneilian | 621.16 |
| Llannerch-y-medd | 541.56 |
| Llaneugrad | 194.77 |
| Llanfair Mathafarn Eithaf | 2,038.26 |
| Cylch y Garn | 427.15 |
| Mechell | 592.04 |
| Rhos-y-bol | 488.24 |
| Aberffraw | 316.77 |
| Bodedern | 423.75 |
| Bodffordd | 424.81 |
| Trearddur | 1,492.47 |
| Tref Alaw | 272.44 |
| Llanfachraeth | 238.36 |
| Llanfaelog | 1,439.20 |
| Llanfaethlu | 279.29 |
| Llanfair-yn-Neubwll | 573.51 |
| Fali | 1,052.48 |
| Bryngwran | 372.60 |
| Rhoscolyn | 399.54 |
| Trewalchmai | 381.66 |
| **Cyfanswm Sail y Dreth Gyngor** | **33,170.03** |

**8.** Bod y symiau a ganlyn bellach yn cael eu pennu gan y Cyngor ar gyfer y flwyddyn 2024/25, yn unol ag Adrannau 32 i 36 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992:-

**a)** £244,076,190 sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodwyd yn Adran 32(2) (a) i (d) y Ddeddf.

**b)** £62,342,087 sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodwyd yn Adran 32(3) (a) a (c) y Ddeddf.

**c)** £181,734,103 sef y swm sy'n cyfateb i'r gwahaniaeth rhwng cyfanswm 8(a) uchod a chyfanswm 8(b) uchod, a bennwyd gan y Cyngor, yn unol ag Adran 32(4) y Ddeddf, fel ei ofynion cyllideb ar gyfer y flwyddyn.

**ch)** £127,586,070 sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn amcangyfrif y byddant yn daladwy yn ystod y flwyddyn i Gronfa'r Cyngor mewn perthynas â threthi annomestig a ail-ddosberthir, y grant cynnal refeniw a grant arbennig, llai unrhyw swm a bennwyd yn unol ag Adran 33(3) y Ddeddf.

**d)** £1,632.44 sef y swm yn 8(c) uchod llai'r swm yn 8(ch) uchod, gan rannu'r cyfan â'r swm a nodir yn 7(a) uchod, a bennwyd gan y Pwyllgor Gwaith, yn unol ag Adran 33(1) y Ddeddf, sef swm sylfaenol y dreth gyngor am y flwyddyn.

**dd)** £1,994,795 sef cyfanswm yr holl eitemau arbennig y cyfeirir atynt yn Adran 34(1) y Ddeddf.

**e)** £ 1,572.30 sef y swm yn 8(d) uchod llai'r canlyniad a geir wrth rannu'r swm yn 8(dd) uchod â’r swm yn 7(a) uchod, a bennwyd gan y Pwyllgor Gwaith, yn unol ag Adran 34(2) y Ddeddf, sef swm sylfaenol y dreth gyngor am y flwyddyn ar gyfer anheddau yn y rhannau hynny o'r ardal lle nad oes unrhyw eitem arbennig yn berthnasol.

f)

| **Ardaloedd Cynghorau Tref/Cymuned** | | **Tâl Band D cyfatebol fesul ardal gan gynnwys elfennau Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Tref/Cymuned** |
|---|---|---|
| Amlwch | £ | 1,646.91 |
| Biwmares | £ | 1,599.75 |
| Caergybi | £ | 1,737.45 |
| Llangefni | £ | 1,722.33 |
| Porthaethwy | £ | 1,664.46 |
| Llanddaniel-fab | £ | 1,608.57 |
| Llanddona | £ | 1,592.64 |
| Cwm Cadnant | £ | 1,600.02 |
| Llanfair Pwllgwyngyll | £ | 1,625.13 |
| Llanfihangel Ysgeifiog | £ | 1,606.95 |
| Bodorgan | £ | 1,599.66 |
| Llangoed | £ | 1,607.67 |
| Llangristiolus a Cerrigceinwen | £ | 1,584.72 |
| Llanidan | £ | 1,610.01 |
| Rhosyr | £ | 1,600.56 |
| Penmynydd | £ | 1,607.58 |
| Pentraeth | £ | 1,601.91 |
| Moelfre | £ | 1,591.83 |
| Llanbadrig | £ | 1,618.47 |
| Llanddyfnan | £ | 1,583.27 |
| Llaneilian | £ | 1,606.95 |
| Llannerch-y-medd | £ | 1,612.26 |
| Llaneugrad | £ | 1,592.82 |
| Llanfair Mathafarn Eithaf | £ | 1,604.70 |
| Cylch y Garn | £ | 1,591.02 |
| Mechell | £ | 1,590.93 |
| Rhos-y-bol | £ | 1,588.68 |

| | | |
|---|---|---|
| Aberffraw | £ | 1,610.19 |
| Bodedern | £ | 1,605.33 |
| Bodffordd | £ | 1,602.90 |
| Trearddur | £ | 1,596.42 |
| Tref Alaw | £ | 1,597.05 |
| Llanfachraeth | £ | 1,614.24 |
| Llanfaelog | £ | 1,602.90 |
| Llanfaethlu | £ | 1,593.81 |
| Llanfair-yn-Neubwll | £ | 1,605.42 |
| Fali | £ | 1,616.94 |
| Bryngwran | £ | 1,611.18 |
| Rhoscolyn | £ | 1,592.28 |
| Trewalchmai | £ | 1,609.02 |

sef y symiau a geir trwy ychwanegu at y swm a geir yn 8(e) uchod, symiau'r eitem neu'r eitemau arbennig sy'n berthnasol i anheddau yn y rhannau hynny o ardal y Cyngor y cyfeiriwyd atynt uchod wedi'u rhannu ym mhob achos gan y swm yn 8(b) uchod, a bennwyd gan y Pwyllgor Gwaith yn unol ag Adran 34(3) y Ddeddf, sef symiau sylfaenol y dreth gyngor am y flwyddyn ar gyfer anheddau yn y rhannau hynny o'i ardal lle bo un eitem arbennig neu fwy'n berthnasol.

**Bandiau Prisio**

sef y symiau a geir trwy luosi'r symiau yn 8(e) a 8(f) uchod â'r rhif sydd, yn ôl y cyfrannau a nodir yn Adran 5(1) y Ddeddf, yn berthnasol i anheddau a restrir mewn band prisiau arbennig wedi'i rannu â'r rhif sydd yn ôl y cyfrannau hynny'n berthnasol i dai a restrir ym mand prisiau D, a bennir gan y Pwyllgor Gwaith, yn unol ag Adran 36(1) y Ddeddf, yn symiau sydd i'w hystyried ar gyfer y flwyddyn mewn perthynas â’r categorïau o anheddau a restrir yn y gwahanol fandiau prisiau.

| | | Treth y Cyngor fesul band, fesul ardal, sy’n cynnwys Cyngor Sir Ynys Môn ac elfennau / Praeseptau Cyngor Cymuned / Tref | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **A** | **B** | **C** | **D** | **E** | **F** | **G** | **H** | **I** |
| Amlwch | £ | 1,097.94 | 1,280.93 | 1,463.92 | 1,646.91 | 2,012.89 | 2,378.87 | 2,744.85 | 3,293.82 | 3,842.79 |
| Biwmares | £ | 1,066.50 | 1,244.25 | 1,422.00 | 1,599.75 | 1,955.25 | 2,310.75 | 2,666.25 | 3,199.50 | 3,732.75 |
| Caergybi | £ | 1,158.30 | 1,351.35 | 1,544.40 | 1,737.45 | 2,123.55 | 2,509.65 | 2,895.75 | 3,474.90 | 4,054.05 |
| Llangefni | £ | 1,148.22 | 1,339.59 | 1,530.96 | 1,722.33 | 2,105.07 | 2,487.81 | 2,870.55 | 3,444.66 | 4,018.77 |
| Porthaethwy | £ | 1,109.64 | 1,294.58 | 1,479.52 | 1,664.46 | 2,034.34 | 2,404.22 | 2,774.10 | 3,328.92 | 3,883.74 |
| Llanddaniel-fab | £ | 1,072.38 | 1,251.11 | 1,429.84 | 1,608.57 | 1,966.03 | 2,323.49 | 2,680.95 | 3,217.14 | 3,753.33 |
| Llanddona | £ | 1,061.76 | 1,238.72 | 1,415.68 | 1,592.64 | 1,946.56 | 2,300.48 | 2,654.40 | 3,185.28 | 3,716.16 |
| Cwm Cadnant | £ | 1,066.68 | 1,244.46 | 1,422.24 | 1,600.02 | 1,955.58 | 2,311.14 | 2,666.70 | 3,200.04 | 3,733.38 |
| Llanfair Pwllgwyngyll | £ | 1,083.42 | 1,263.99 | 1,444.56 | 1,625.13 | 1,986.27 | 2,347.41 | 2,708.55 | 3,250.26 | 3,791.97 |
| Llanfihangel Ysgeifiog | £ | 1,071.30 | 1,249.85 | 1,428.40 | 1,606.95 | 1,964.05 | 2,321.15 | 2,678.25 | 3,213.90 | 3,749.55 |
| Bodorgan | £ | 1,066.44 | 1,244.18 | 1,421.92 | 1,599.66 | 1,955.14 | 2,310.62 | 2,666.10 | 3,199.32 | 3,732.54 |
| Llangoed | £ | 1,071.78 | 1,250.41 | 1,429.04 | 1,607.67 | 1,964.93 | 2,322.19 | 2,679.45 | 3,215.34 | 3,751.23 |
| Llangristiolus a Cerrigceinwen | £ | 1,056.48 | 1,232.56 | 1,408.64 | 1,584.72 | 1,936.88 | 2,289.04 | 2,641.20 | 3,169.44 | 3,697.68 |
| Llanidan | £ | 1,073.34 | 1,252.23 | 1,431.12 | 1,610.01 | 1,967.79 | 2,325.57 | 2,683.35 | 3,220.02 | 3,756.69 |
| Rhosyr | £ | 1,067.04 | 1,244.88 | 1,422.72 | 1,600.56 | 1,956.24 | 2,311.92 | 2,667.60 | 3,201.12 | 3,734.64 |
| Penmynydd | £ | 1,071.72 | 1,250.34 | 1,428.96 | 1,607.58 | 1,964.82 | 2,322.06 | 2,679.30 | 3,215.16 | 3,751.02 |
| Pentraeth | £ | 1,067.94 | 1,245.93 | 1,423.92 | 1,601.91 | 1,957.89 | 2,313.87 | 2,669.85 | 3,203.82 | 3,737.79 |
| Moelfre | £ | 1,061.22 | 1,238.09 | 1,414.96 | 1,591.83 | 1,945.57 | 2,299.31 | 2,653.05 | 3,183.66 | 3,714.27 |
| Llanbadrig | £ | 1,078.98 | 1,258.81 | 1,438.64 | 1,618.47 | 1,978.13 | 2,337.79 | 2,697.45 | 3,236.94 | 3,776.43 |
| Llanddyfnan | £ | 1,062.18 | 1,239.21 | 1,416.24 | 1,593.27 | 1,947.33 | 2,301.39 | 2,655.45 | 3,186.54 | 3,717.63 |
| Llaneilian | £ | 1,071.30 | 1,249.85 | 1,428.40 | 1,606.95 | 1,964.05 | 2,321.15 | 2,678.25 | 3,213.90 | 3,749.55 |
| Llannerch-y-medd | £ | 1,074.84 | 1,253.98 | 1,433.12 | 1,612.26 | 1,970.54 | 2,328.82 | 2,687.10 | 3,224.52 | 3,761.94 |
| Llaneugrad | £ | 1,061.88 | 1,238.86 | 1,415.84 | 1,592.82 | 1,946.78 | 2,300.74 | 2,654.70 | 3,185.64 | 3,716.58 |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llanfair Mathafarn Eithaf | £ | 1,069.80 | 1,248.10 | 1,426.40 | 1,604.70 | 1,961.30 | 2,317.90 | 2,674.50 | 3,209.40 | 3,744.30 |
| Cylch y Garn | £ | 1,060.68 | 1,237.46 | 1,414.24 | 1,591.02 | 1,944.58 | 2,298.14 | 2,651.70 | 3,182.04 | 3,712.38 |
| Mechell | £ | 1,060.62 | 1,237.39 | 1,414.16 | 1,590.93 | 1,944.47 | 2,298.01 | 2,651.55 | 3,181.86 | 3,712.17 |
| Rhos-y-bol | £ | 1,059.12 | 1,235.64 | 1,412.16 | 1,588.68 | 1,941.72 | 2,294.76 | 2,647.80 | 3,177.36 | 3,706.92 |
| Aberffraw | £ | 1,073.46 | 1,252.37 | 1,431.28 | 1,610.19 | 1,968.01 | 2,325.83 | 2,683.65 | 3,220.38 | 3,757.11 |
| Bodedern | £ | 1,070.22 | 1,248.59 | 1,426.96 | 1,605.33 | 1,962.07 | 2,318.81 | 2,675.55 | 3,210.66 | 3,745.77 |
| Bodffordd | £ | 1,068.60 | 1,246.70 | 1,424.80 | 1,602.90 | 1,959.10 | 2,315.30 | 2,671.50 | 3,205.80 | 3,740.10 |
| Trearddur | £ | 1,064.28 | 1,241.66 | 1,419.04 | 1,596.42 | 1,951.18 | 2,305.94 | 2,660.70 | 3,192.84 | 3,724.98 |
| Tref Alaw | £ | 1,064.70 | 1,242.15 | 1,419.60 | 1,597.05 | 1,951.95 | 2,306.85 | 2,661.75 | 3,194.10 | 3,726.45 |
| Llanfachraeth | £ | 1,076.16 | 1,255.52 | 1,434.88 | 1,614.24 | 1,972.96 | 2,331.68 | 2,690.40 | 3,228.48 | 3,766.56 |
| Llanfaelog | £ | 1,068.60 | 1,246.70 | 1,424.80 | 1,602.90 | 1,959.10 | 2,315.30 | 2,671.50 | 3,205.80 | 3,740.10 |
| Llanfaethlu | £ | 1,062.54 | 1,239.63 | 1,416.72 | 1,593.81 | 1,947.99 | 2,302.17 | 2,656.35 | 3,187.62 | 3,718.89 |
| Llanfair-yn-Neubwll | £ | 1,070.28 | 1,248.66 | 1,427.04 | 1,605.42 | 1,962.18 | 2,318.94 | 2,675.70 | 3,210.84 | 3,745.98 |
| Fali | £ | 1,077.96 | 1,257.62 | 1,437.28 | 1,616.94 | 1,976.26 | 2,335.58 | 2,694.90 | 3,233.88 | 3,772.86 |
| Bryngwran | £ | 1,074.12 | 1,253.14 | 1,432.16 | 1,611.18 | 1,969.22 | 2,327.26 | 2,685.30 | 3,222.36 | 3,759.42 |
| Rhoscolyn | £ | 1,061.52 | 1,238.44 | 1,415.36 | 1,592.28 | 1,946.12 | 2,299.96 | 2,653.80 | 3,184.56 | 3,715.32 |
| Trewalchmai | £ | 1,072.68 | 1,251.46 | 1,430.24 | 1,609.02 | 1,966.58 | 2,324.14 | 2,681.70 | 3,218.04 | 3,754.38 |

**9.** Y dylid nodi, ar gyfer y flwyddyn 2024/25, fod Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru wedi nodi'r symiau a ganlyn mewn praesept a roddwyd i'r Cyngor, yn unol ag Adran 40 Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, ar gyfer pob un o'r categorïau o anheddau a ddangosir isod:-

**Awdurdod Praeseptio** **Bandiau Prisiau**

| | | A | B | C | D | E | F | G | H | I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru | £ | 233.10 | 271.95 | 310.80 | 349.65 | 427.35 | 505.05 | 582.75 | 699.30 | 815.85 |

**10.** Wedi pennu'r cyfanswm ym mhob achos o'r symiau yn 8(ff) a 9 uchod, bod y Cyngor drwy hyn, yn unol ag Adran 30(2) Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, yn pennu'r symiau a ganlyn ar gyfer y dreth gyngor ar gyfer y flwyddyn 2024/25 ar gyfer pob categori o anheddau a ddangosir isod:-

| | | **Y Dreth Gyngor fesul Band, ym mhob ardal, sy'n cynnwys elfen Cyngor Sir Ynys Môn, Praeseptau Cyngor Tref / Cymuned a Phraesept Heddlu Gogledd Cymru** | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | **A** | **B** | **C** | **D** | **E** | **F** | **G** | **H** | **I** |
| Amlwch | £ | 1,331.04 | 1,552.88 | 1,774.72 | 1,996.56 | 2,440.24 | 2,883.92 | 3,327.60 | 3,993.12 | 4,658.64 |
| Biwmares | £ | 1,299.60 | 1,516.20 | 1,732.80 | 1,949.40 | 2,382.60 | 2,815.80 | 3,249.00 | 3,898.80 | 4,548.60 |
| Caergybi | £ | 1,391.40 | 1,623.30 | 1,855.20 | 2,087.10 | 2,550.90 | 3,014.70 | 3,478.50 | 4,174.20 | 4,869.90 |
| Llangefni | £ | 1,381.32 | 1,611.54 | 1,841.76 | 2,071.98 | 2,532.42 | 2,992.86 | 3,453.30 | 4,143.96 | 4,834.62 |
| Porthaethwy | £ | 1,342.74 | 1,566.53 | 1,790.32 | 2,014.11 | 2,461.69 | 2,909.27 | 3,356.85 | 4,028.22 | 4,699.59 |
| Llanddaniel-fab | £ | 1,305.48 | 1,523.06 | 1,740.64 | 1,958.22 | 2,393.38 | 2,828.54 | 3,263.70 | 3,916.44 | 4,569.18 |
| Llanddona | £ | 1,294.86 | 1,510.67 | 1,726.48 | 1,942.29 | 2,373.91 | 2,805.53 | 3,237.15 | 3,884.58 | 4,532.01 |
| Cwm Cadnant | £ | 1,299.78 | 1,516.41 | 1,733.04 | 1,949.67 | 2,382.93 | 2,816.19 | 3,249.45 | 3,899.34 | 4,549.23 |
| Llanfair Pwllgwyngyll | £ | 1,316.52 | 1,535.94 | 1,755.36 | 1,974.78 | 2,413.62 | 2,852.46 | 3,291.30 | 3,949.56 | 4,607.82 |
| Llanfihangel Ysgeifiog | £ | 1,304.40 | 1,521.80 | 1,739.20 | 1,956.60 | 2,391.40 | 2,826.20 | 3,261.00 | 3,913.20 | 4,565.40 |
| Bodorgan | £ | 1,299.54 | 1,516.13 | 1,732.72 | 1,949.31 | 2,382.49 | 2,815.67 | 3,248.85 | 3,898.62 | 4,548.39 |
| Llangoed | £ | 1,304.88 | 1,522.36 | 1,739.84 | 1,957.32 | 2,392.28 | 2,827.24 | 3,262.20 | 3,914.64 | 4,567.08 |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llangristiolus a Cerrigceinwen | £ | 1,289.58 | 1,504.51 | 1,719.44 | 1,934.37 | 2,364.23 | 2,794.09 | 3,223.95 | 3,868.74 | 4,513.53 |
| Llanidan | £ | 1,306.44 | 1,524.18 | 1,741.92 | 1,959.66 | 2,395.14 | 2,830.62 | 3,266.10 | 3,919.32 | 4,572.54 |
| Rhosyr | £ | 1,300.14 | 1,516.83 | 1,733.52 | 1,950.21 | 2,383.59 | 2,816.97 | 3,250.35 | 3,900.42 | 4,550.49 |
| Penmynydd | £ | 1,304.82 | 1,522.29 | 1,739.76 | 1,957.23 | 2,392.17 | 2,827.11 | 3,262.05 | 3,914.46 | 4,566.87 |
| Pentraeth | £ | 1,301.04 | 1,517.88 | 1,734.72 | 1,951.56 | 2,385.24 | 2,818.92 | 3,252.60 | 3,903.12 | 4,553.64 |
| Moelfre | £ | 1,294.32 | 1,510.04 | 1,725.76 | 1,941.48 | 2,372.92 | 2,804.36 | 3,235.80 | 3,882.96 | 4,530.12 |
| Llanbadrig | £ | 1,312.08 | 1,530.76 | 1,749.44 | 1,968.12 | 2,405.48 | 2,842.84 | 3,280.20 | 3,936.24 | 4,592.28 |
| Llanddyfnan | £ | 1,295.28 | 1,511.16 | 1,727.04 | 1,942.92 | 2,374.68 | 2,806.44 | 3,238.20 | 3,885.84 | 4,533.48 |
| Llaneilian | £ | 1,304.40 | 1,521.80 | 1,739.20 | 1,956.60 | 2,391.40 | 2,826.20 | 3,261.00 | 3,913.20 | 4,565.40 |
| Llannerch-y-medd | £ | 1,307.94 | 1,525.93 | 1,743.92 | 1,961.91 | 2,397.89 | 2,833.87 | 3,269.85 | 3,923.82 | 4,577.79 |
| Llaneugrad | £ | 1,294.98 | 1,510.81 | 1,726.64 | 1,942.47 | 2,374.13 | 2,805.79 | 3,237.45 | 3,884.94 | 4,532.43 |
| Llanfair Mathafarn Eithaf | £ | 1,302.90 | 1,520.05 | 1,737.20 | 1,954.35 | 2,388.65 | 2,822.95 | 3,257.25 | 3,908.70 | 4,560.15 |
| Cylch y Garn | £ | 1,293.78 | 1,509.41 | 1,725.04 | 1,940.67 | 2,371.93 | 2,803.19 | 3,234.45 | 3,881.34 | 4,528.23 |
| Mechell | £ | 1,293.72 | 1,509.34 | 1,724.96 | 1,940.58 | 2,371.82 | 2,803.06 | 3,234.30 | 3,881.16 | 4,528.02 |
| Rhos-y-bol | £ | 1,292.22 | 1,507.59 | 1,722.96 | 1,938.33 | 2,369.07 | 2,799.81 | 3,230.55 | 3,876.66 | 4,522.77 |
| Aberffraw | £ | 1,306.56 | 1,524.32 | 1,742.08 | 1,959.84 | 2,395.36 | 2,830.88 | 3,266.40 | 3,919.68 | 4,572.96 |
| Bodedern | £ | 1,303.32 | 1,520.54 | 1,737.76 | 1,954.98 | 2,389.42 | 2,823.86 | 3,258.30 | 3,909.96 | 4,561.62 |
| Bodffordd | £ | 1,301.70 | 1,518.65 | 1,735.60 | 1,952.55 | 2,386.45 | 2,820.35 | 3,254.25 | 3,905.10 | 4,555.95 |
| Trearddur | £ | 1,297.38 | 1,513.61 | 1,729.84 | 1,946.07 | 2,378.53 | 2,810.99 | 3,243.45 | 3,892.14 | 4,540.83 |
| Tref Alaw | £ | 1,297.80 | 1,514.10 | 1,730.40 | 1,946.70 | 2,379.30 | 2,811.90 | 3,244.50 | 3,893.40 | 4,542.30 |
| Llanfachraeth | £ | 1,309.26 | 1,527.47 | 1,745.68 | 1,963.89 | 2,400.31 | 2,836.73 | 3,273.15 | 3,927.78 | 4,582.41 |
| Llanfaelog | £ | 1,301.70 | 1,518.65 | 1,735.60 | 1,952.55 | 2,386.45 | 2,820.35 | 3,254.25 | 3,905.10 | 4,555.95 |
| Llanfaethlu | £ | 1,295.64 | 1,511.58 | 1,727.52 | 1,943.46 | 2,375.34 | 2,807.22 | 3,239.10 | 3,886.92 | 4,534.74 |
| Llanfair-yn-Neubwll | £ | 1,303.38 | 1,520.61 | 1,737.84 | 1,955.07 | 2,389.53 | 2,823.99 | 3,258.45 | 3,910.14 | 4,561.83 |
| Fali | £ | 1,311.06 | 1,529.57 | 1,748.08 | 1,966.59 | 2,403.61 | 2,840.63 | 3,277.65 | 3,933.18 | 4,588.71 |
| Bryngwran | £ | 1,307.22 | 1,525.09 | 1,742.96 | 1,960.83 | 2,396.57 | 2,832.31 | 3,268.05 | 3,921.66 | 4,575.27 |
| Rhoscolyn | £ | 1,294.62 | 1,510.39 | 1,726.16 | 1,941.93 | 2,373.47 | 2,805.01 | 3,236.55 | 3,883.86 | 4,531.17 |
| Trewalchmai | £ | 1,305.78 | 1,523.41 | 1,741.04 | 1,958.67 | 2,393.93 | 2,829.19 | 3,264.45 | 3,917.34 | 4,570.23 |

## 9. CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL 2024-2028

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro, fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 29 Chwefror 2024, i'r Cyngor ei dderbyn.

**PENDERFYNWYD yn unfrydol:-**

- **Cymeradwyo'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol drafft ar gyfer 2024-2028;**
- **Awdurdodi Swyddogion, mewn ymgynghoriad â'r Aelod Portffolio, i gwblhau a chyhoeddi'r Cynllun erbyn 31 Mawrth 2024.**

## 10. ADOLYGU ARDALOEDD A MANNAU PLEIDLEISIO YNYS MÔN

Cyflwynwyd adroddiad y Prif Weithredwr i'r Cyngor gan yr Aelod Portffolio Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer.

**PENDERFYNWYD yn unfrydol :-**

- **Nodi canlyniad yr Adolygiad o Ardaloedd a Mannau Pleidleisio;**

- **Bod y cynigion terfynol a nodir yn Atodiad 1 mewn perthynas ag ardaloedd pleidleisio, mannau pleidleisio a gorsafoedd pleidleisio'n cael eu cymeradwyo.**

## 11. AELODAETH A CHYFANSODDIAD Y CYD-BWYLLGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc i'r Cyngor gan Gadeirydd y CYSAG.

**PENDERFYNWYD yn unfrydol:-**

- **Addasu enw'r CYSAG i CYS a bod y Swyddog Monitro yn cynnwys ei gylch gorchwyl yng Nghyfansoddiad y Cyngor, yn unol â'r gofyniad cyfreithiol ar gyfer CYS;**
- **Oherwydd bod rhaid i'r awdurdod lleol gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod yr aelodaeth, yn gyffredinol, yn gymesur â chryfder pob crefydd, enwad, neu argyhoeddiad athronyddol anghrefyddol yn ei ardal leol, bod aelodaeth y CYS yn cynnwys cyfanswm o 9 sedd, yn cynnwys 6 sedd ar gyfer yr aelodau presennol a 3 sedd newydd ychwanegol a benodir ar gyfer cynrychiolwyr: Dyneiddwyr y DU, Islam a Thystion Jehova;**
- **Cynnal adolygiad pellach, o fewn chwe mis, o'r seddi Cristnogol presennol (ac felly'n eithrio Tystion Jehova o'r ymgynghoriad nesaf) oherwydd sylwadau a wnaethpwyd pan ymgynghorwyd â CYSAG a'r ffigyrau sydd wedi dod i law.**

## 12. DATGANIAD POLISI TÂL 2024

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid i'r Cyngor gan yr Aelod Portffolio Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo Datganiad Polisi Tâl y Cyngor ar gyfer 2024/2025.**

Daeth y cyfarfod i ben am 3.30pm

**Y CYNGHORYDD MARGARET M ROBERTS**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

# Adroddiad Blynyddol yr Arweinydd 23/24

**Rhagair**

**Blwyddyn arall gyda'i heriau a chyfleon. Byddaf yn trio crynhoi rhai o weithgareddau'r Awdurdod yn ystod y flwyddyn. Ond, mae'n bwysig nodi bod llawer mwy o waith yn mynd rhagddo fel Cyngor i sicrhau'r gorau i drigolion Ynys Môn. Rwy'n ymfalchïo o gael arwain Cyngor sydd gyda'r egwyddorion craidd sef Parch, Cydweithio, Gonestrwydd a Hyrwyddo'r Cyngor a'r Ynys.**

**Mabwysiadu Cynllun y Cyngor 2023 / 2028**

Yn dilyn ymgynghoriad sylweddol gyda breswylwyr, busnesau a rhanddeiliaid ledled Ynys Môn,  braf oedd cael cymeradwyo Cynllun y Cyngor, sy'n nodi gweledigaeth ac amcanion allweddol y Cyngor ar gyfer y pum mlynedd nesaf.

Gweledigaeth Cynllun y Cyngor yw 'Creu Ynys Môn fydd yn iach a llewyrchus lle gall pobl ffynnu'. Mae ei chwe amcan strategol yn adlewyrchu meysydd allweddol y dylai'r Cyngor, ym marn preswylwyr, ganolbwyntio ei ymdrechion arnynt.

Chwe phrif amcan Cynllun y Cyngor yw:

- Yr Iaith Gymraeg: cynyddu cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r iaith.
- Gofal Cymdeithasol a Llesiant: rhoi'r cymorth cywir ar yr adeg gywir.
- Addysg: sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer heddiw a chenedlaethau'r dyfodol.
- Tai: sicrhau fod gan bawb yr hawl i alw rhywle yn gartref.
- Economi: hyrwyddo cyfleoedd i ddatblygu economi'r ynys.
- Newid Hinsawdd: ymateb i'r argyfwng, mynd i'r afael â newid a gweithio tuag at fod yn sefydliad sero net erbyn 2030.

**Gosod Cyllideb Heriol**

Ym mis Mawrth cymeradwyodd Cyngor Môn un o'i gyllidebau fwyaf heriol ar ôl goresgyn bwlch ariannol cychwynnol o £14 miliwn. Dyma'r bwlch mwyaf rwyf wedi'i wynebu fel Arweinydd y cyngor a mae hyn yn dilyn 11 mlynedd o dorri cyllideb.

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, rydym wedi canolbwyntio ar geisio sicrhau cydbwysedd rhwng toriadau i wasanaethau, codi'r Dreth Gyngor a defnyddio'r arian wrth gefn er mwyn cydbwyso'r Gyllideb Refeniw. Fe wnaethom ddefnyddio cyllid canlyniadol ychwanegol gan Lywodraeth Cymru ynghyd â sefyllfa ariannol well na'r disgwyl yn 2023/24 i geisio lleihau'r effaith ar drigolion.

Darparodd yr ymgynghoriad ar y Gyllideb wybodaeth am flaenoriaethau trigolion Môn, a oedd yn cynnwys cefnogaeth ar gyfer strategaeth Cyllideb y Cyngor o ddiogelu gwasanaethau ar gyfer y bobl fwyaf bregus o fewn ein cymunedau ac amddiffyn cyllidebau ysgolion. Rydw i'n ddiolchgar i'r trigolion hynny gymerodd rhan yn ein hymgynghoriad diweddaraf ar y Gyllideb. Roedd hi'n braf gweld yr adborth a ddarparwyd yn cefnogi amcanion strategol Cynllun y Cyngor sef addysg, ysgolion, cefnogi pobl fregus ac ailgylchu ymysg y prif flaenoriaethau.

Rydym eisoes wedi treulio dros ddegawd yn ceisio amddiffyn trigolion a chymunedau lleol o ganlyniad i doriadau cyllidebol difrifol. Mae pob awdurdod lleol yng Nghymru yn wynebu heriau ariannol sylweddol wrth geisio cydbwyso'r Gyllideb ac nid ydym yn disgwyl i bethau fynd dim haws dros y blynyddoedd nesaf.

Mae Treth Cyngor Ynys Môn yn parhau i fod yr isaf yng ngogledd Cymru ac ymysg yr isaf yng Nghymru. Fodd bynnag, rydym yn sylweddoli bod pethau'n anodd ar bobl ac rydym yn annog unrhyw un sy'n wynebu problemau ariannol i weld a ydynt yn gymwys am gymorth drwy'r Cynllun Gostyngiad y Dreth Gyngor.

Yn anffodus, rydym yn disgwyl cyllideb hyd yn oed mwy heriol ar gyfer 2025/26 a thu hwnt, wrth i gostau gynyddu oherwydd chwyddiant, cynnydd yn y galw am wasanaethau a'r rhagolygon o lai o gyllid gan Lywodraeth Cymru.

## Addysg

### Datblygiadau Newydd

Fe agorwyd Ysgol newydd Corn Hir yn Ebrill 2023 ac mae disgyblion, staff ac ymwelwyr yn hapus iawn gyda'r adeilad newydd. Cafwyd cyfle i ymweld gyda'r ysgol cyn i'r disgyblion gychwyn. Braf yw gweld plant yr ynys yn derbyn cyfleon addysgu mewn adeiladau modern. Mae gwaith wedi cychwyn ar estyniad yn ysgol y Graig ac fe fydd yr adeilad newydd yn agored i blant y Cyfnod Sylfaen o Fedi 2024.

### RAAC

Cafwyd cyfnod heriol mewn dwy o ysgolion Uwchradd Ynys Môn. O ganlyniad i newid yn y ddeddfwriaeth yn ymwneud a RAAC nid oedd ysgolion Uwchradd Caergybi a David Hughes yn cael ail agor i ddisgyblion ar ôl yr Haf. Roedd rhaid i waith trwsio brys gael ei wneud mewn nifer o wahanol adeiladau ar dir y ddwy ysgol. Fe gydweithiodd nifer o wasanaethau'r Cyngor yn effeithiol iawn er mwyn sicrhau bod yr ysgolion yn parhau i ddarparu Addysg tra roedd yr safleoedd wedi cau a bod yr ysgolion yn gallu ail agor yn ddiogel cyn gynted ag oedd yn bosib. Mae ein diolch yn enfawr i Penaethiaid, staff, disgyblion a'u teuluoedd am gydweithio'n agos gyda ni fel Awdurdod ar adeg anodd iawn. Hefyd, diolch i'r cymunedau, timau mewnol, busnesau lleol, a Llywodraeth Cymru wnaeth ein cynorthwyo i alluogi'r ymateb sydyn.

### Estyn

Yn ystod 2023 roedd proffil Estyn Môn yn arbennig gyda dim un o ysgolion Môn wedi gorfod mynd i gategori. Hefyd cafodd y Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chymhwysiad ei enwi fel arfer dda o fewn Arolwg Thematig Cenedlaethol ADY yng nghyd destun y gwaith trawsnewid deddfwriaethol, ansawdd y ddarpariaeth a darpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg. Hoffwn ddiolch i'r holl staff yn ein ysgolion ac yn yr Adran addysg am sicrhau'r llwyddiant.

**Ysgolion sy'n Wybodus o Drawma**
Mae ysgolion a'r Cyngor yn parhau i weithio tuag at fod yn Ynys sy'n Wybodus o Drawma. Mae nifer o staff o fewn ein hysgolion wedi cwblhau'r cwrs diploma ac yn 2023 fe gwblhaodd nifer o swyddogion o fewn y Cyngor y cwrs.

**Grantiau**
Mae grantiau gan Chwaraeon Cymru gwerth £400,000 wedi ein galluogi i wireddu y gwaith o foderneiddio dau gae aml bwrpas yn Ysgol Uwchradd Bodedern. Yn 2024 bydd cae maint bychan 2G a cae maint bychan 3G gyda llifoleuadau yn cael eu hagor.

**Ysgolion Bro**
Rydym wedi manteisio ar grantiau Ysgolion Bro i fuddsoddi £700,000 ar draws 3 ysgol er mwyn sicrhau gwell defnydd cymunedol. Mae'r tîm swyddogion ymgysylltu teuluoedd wedi cynyddu o 2 i 3 ac o ganlyniad mae mwy o gefnogaeth ar gael i deuluoedd ar draws yr ynys.

**Cinio Am Ddim**
Bydd pob plentyn cynradd ym mhob ysgol yn Ynys Môn yn gallu derbyn cinio ysgol am ddim drwy'r cynllun cenedlaethol newydd. Mae gwaith yn parhau i fonitro'r gwasanaeth yma er mwyn cynyddu niferoedd sydd yn cymryd y cynnig.

**Y Gymraeg**
Rydym yn ein hail-flwyddyn o'r Cynllun Strategol y Gymraeg Mewn Addysg 2022-32. Mae strwythur clir wedi ei sefydlu er mwyn cefnogi'r saith deilliant sydd yn y Cynllun. Mae'r Canolfannau Iaith (Moelfre a Cybi) wedi cynnal a throchi 120 o ddisgyblion dros y flwyddyn a chafodd 50 o ddisgyblion Uwchradd eu trochi yn Ysgol Syr Thomas Jones. Edrychwn ymlaen i lansio ein Ap 'Cynllun y Llan' er mwyn rhannu adnoddau a chanllawiau gyda disgyblion, rhieni, ysgolion a chanolfannau awdurdodau ledled cymru.

**Archifau a'r Oriel**
Mae'r Archifau wedi bod yn llwyddiannus gyda'u cais achredu ac mae'r gwasanaeth yn parhau i fonitro a sicrhau eu bod yn llwyddo i gadw'r statws achrediad. Mae'r ffigyrau ymwelwyr yr Oriel wedi cynyddu ac mae nifer o arddangosfeydd wedi eu trefnu sydd wedi bod yn boblogaidd iawn ac wedi eu cynnwys mewn rhaglenni ac erthyglau papur newydd a chylchgronau.

**Llyfrgelloedd: Cynnydd mewn defnydd**
Mae ffigwr defnydd ein llyfrgelloedd eleni wedi codi, mae hyn yn dangos pwysigrwydd llyfrgelloedd yn ein cymunedau. Rydym wedi parhau i weithio gyda phartneriaid i ddatblygu'r arlwy o gyfleoedd dysgu sydd ar gael i oedolion yn eu cymunedau. Rydym wedi rhedeg dros 600 digwyddiadau a gweithgareddau, ar gyfer plant, disgyblion ysgol ac oedolion er mwyn gwella llythrennedd, iechyd a lles a dysgu sgiliau newydd.

## Gofal Cymdeithasol a Llesiant

**Aelodaeth gyda Rhwydwaith Byd-eang o Gymunedau Oed-gyfeillgar**
Yn ystod mis Mehefin 2023, dyfarnwyd aelodaeth i Gyngor Ynys Môn, oedd yn arwydd o ymrwymiad yr Ynys gyfan i greu Ynys Môn Oed-gyfeillgar, lle nad oes unrhyw rwystrau'n atal pobl rhag heneiddio'n dda. Rydym yn ddiolchgar iawn am gefnogaeth Comisiynydd Pobl Hyn

Cymru am ymuno gyda ni i ddathlu'r llwyddiant. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae Môn Oed-gyfeillgar wedi bod yn cynnal sawl Fforwm Pobl Hŷn lleol yn y gymuned, gan arwain dros 50 o Ddiwrnodau Agored ar y cyd gyda Môn Actif.

**Gwasanaethau Anableddau Dysgu**
Mae gwneud defnydd gwell o adnoddau cymunedol er mwyn annog integreiddio yn y gymuned yn flaenoriaeth ar gyfer y gwasanaeth Anableddau Dysgu. Mae'r gwasanaeth wedi rhoi cynnig ar ddefnyddio Hybiau Cymunedol, ac wedi cwblhau ymarferiad ymgysylltu yn ardal Caergybi, ac mae'r adborth gan bawb a oedd yn bresennol wedi bod yn gadarnhaol. Mae pobl yn gwerthfawrogi eu bod yn cael cynnig amrywiaeth o weithgareddau ac mae hynny'n arwain at brofiadau gwell a mwy o ddewis a rheolaeth yn eu bywydau. Er mwyn gwireddu'r weledigaeth hon ar gyfer Gweithgareddau Dydd, mae'r awdurdod wedi cymeradwyo proses drawsnewid mewn perthynas â darpariaeth yn y gymuned, gan symud adnoddau o ganolfan Morswyn i hwyluso'r gwaith o ddatblygu adnoddau cymunedol ymhellach. Yn ogystal â hyn, rydym wedi buddsoddi mewn gwella'r ddarpariaeth bresennol, gan gynnwys cyfleusterau awyr agored yn Gors Felen. Roedd hyn yn cynnwys datblygu mannau i groesawu cadeiriau olwyn, a gardd synhwyraidd.

**Prosiect Breuder**
Mae'r Prosiect Breuder yn fenter ar y cyd gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC), ac mae ar waith bellach ers 6 mis. Mae'r prosiect rhagweithiol hwn yn ceisio lleihau'r angen i bobl fynd i'r Ysbyty, a'u cefnogi i aros gartref gan dderbyn cefnogaeth ymateb cyflym gan asiantaethau. Yn dilyn yr ymateb cadarnhaol a chanmoliaeth ar gyfer y prosiect, mae trefniadau ar waith i efelychu'r model yn Amlwch CRT, a bydd ar gael yn ystod gwanwyn 2024.

**Eiddo Gofal Ychwanegol, De yr Ynys**
Rydym wedi paratoi achos amlinellol strategol ar gyfer Eiddo Gofal Ychwanegol newydd, ac rydym yn disgwyl cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru, cyn cyflwyno achos busnes llawn erbyn mis Hydref 2024.

**Dementia Actif Môn**
Mae'r prosiect hwn wedi gwneud cynnydd sylweddol yn ystod y 12 mis diwethaf, ac wedi creu mwy o gyfleoedd ar gyfer cymdeithasu yn ogystal â rhaglen ymarfer corff ysgafn. Mae hyn wedi'i gefnogi drwy recriwtio aelod staff llawn amser newydd i gynnig gweithgareddau a chymorth ledled yr ynys.

**Tai â Chymorth**
Mae gan y gwasanaeth gynlluniau uchelgeisiol i drawsnewid a diweddaru opsiynau llety ar gyfer pobl gydag anableddau dysgu drwy raglen o ddatblygiadau newydd. Drwy weithio cyfochr â'r Adran Dai a chymdeithasau tai lleol, rydym wedi paratoi sawl cynllun ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Disgwylir y bydd y cynllun cyntaf yn Safle Melin/Mart Y Fali, ar waith erbyn mis Mehefin 2024, ac rydym hefyd wedi prynu eiddo ychwanegol gyda chyllid grant, fydd yn cael ei reoli gan ein Hadran Dai.

**Gwybodus o Drawma**
Mae Ynys Môn yn flaenllaw o ran dod yn ynys sy'n Wybodus o Drawma, ac rydym wedi hyrwyddo a gweithio'n ddiflino er mwyn gweithredu ein Strategaeth Ynys Môn Gwybodus o Drawma yn y cyngor, gyda phartneriaid ac yn y gymuned. Mae dros 1000 o bobl o'r awdurdod, ac amrywiaeth o bartneriaid, wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant gwahanol yn ystod y flwyddyn.

**Darparu Gwasanaeth Ieuenctid**
Mae fframwaith ein gwasanaeth ieuenctid wedi'i ddiweddaru, ei foderneiddio a'i ail-ffurfio er mwyn bodloni anghenion ein pobl ifanc gyda chefnogaeth a darpariaeth glir. Mae oddeutu 700 o bobl ifanc yn manteisio ar ein cynnig i ieuenctid yn ystod 39 wythnos o'r flwyddyn.

**Peilot ar gyfer Ysgol Rithiol (Cymru)**
Cynhaliwyd peilot yn 2023, gyda chefnogaeth cyllid gan Lywodraeth Cymru i edrych ar wella canlyniadau ar gyfer Plant Mewn Gofal. Mae ein hysgol rithiol yn cael ei harwain gan Reolwr Gwasanaeth integredig, sy'n rhan o'r Gwasanaeth Plant a Theuluoedd ac sydd hefyd yn eistedd ar y grŵp arweinyddiaeth ar gyfer Gwasanaethau Dysgu.

**Cynllun Strategol Trechu Tlodi**
Mae'r cynllun hwn a gafodd ei gyhoeddi yn gynharach eleni yn nodi ein blaenoriaeth i gefnogi'r heriau mae pobl Ynys Môn yn eu hwynebu. Mae hwn yn gynllun Cyngor cyfan, ble mae cydweithio mewnol ac gyda sefydliadau allanol yn allweddol bwysig.

**Cartrefi Clyd**
Ers agor y Cartref Clyd cyntaf, rydym wedi ychwanegu tair uned arall sy'n darparu cartref ar gyfer hyd at chwech o'n Plant Mewn Gofal. Mae'r unedau'n cael eu rheoli gan dîm bach o staff sy'n sicrhau y rhoddir gofal o'r ansawdd gorau i'r plant sy'n byw yno. Rydym bellach yn chwilio am ein Cartref Clyd nesaf ar Ynys Môn.

**Môn Actif**
Mae Môn Actif wedi buddsoddi £1,175,000 yn ein cyfleusterau hamdden yn ystod y flwyddyn. Mae hyn wedi cynnwys gwaith adnewyddu yn ein canolfannau hamdden yn Amlwch, Caergybi, Llangefni a Porthaethwy.

**Economi**

**Y Gronfa Ffyniant Gyffredin (SPF)**
Mae'r Cyngor wedi asesu ceisiadau a dyrannu £16miliwn o arian Gronfa Ffyniant Gyffredin Llywodraeth y DU, ar brosiectau fydd yn gwneud gwir wahaniaeth i gymunedau lleol.
Mewn cydweithrediad â phartneriaid lleol, dewiswyd 25 prosiect ar draws yr Ynys.
Mae tua £3 miliwn hefyd wedi ei glustnodi er mwyn gwella sgiliau rhifedd oedolion, fel rhan o Raglen Lluosi Llywodraeth y DU.

**Cronfa Ffyniant Bro (LUF) Caergybi**
Mae gwaith yn mynd rhagddo yng Nghaergybi i ymateb i'r her o wario £22.5 miliwn o fuddsoddiad i drawsnewid asedau diwylliant a threftadaeth cymunedol allweddol yng nghanol y dref, a dod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd, a hynny trwy lynu at amserlen dynn iawn.

Mae tri phrosiect sylweddol ar y gweill ar hyn o bryd, sef:

- Gwaith i ehangu Canolfan Ucheldre er mwyn cynyddu'r nifer a'r math o ddigwyddiadau y gellir eu cynnal yno
- Datblygu 9 Stryd Stanley mewn cydweithrediad efo Môn CF i bwrpas annog busnesau i fentro a ffynnu yng nghanol y Dref

- Gweithio efo'r Cyngor Tref at drawsnewid Ciosgau Traeth Newry i fod yn safleoedd sy'n gwerthu bwyd a diod, a'n darparu gwybodaeth i ymwelwyr.

Bydd datblygiadau pellach yn digwydd yn ystod y flwyddyn nesaf ac edrychwn ymlaen at barhau i gydweithio efo'n partneriaid ar y cynlluniau rheiny.

**Canol Trefi**

Strategaeth Gwella Canol Trefi Ynys Môn 2023-28 wedi ei ddatblygu a'i gytuno yn dilyn proses ymgynghori cyhoeddus. Mae Cyllid SPF 'Lle Da' wedi ei sicrhau ar gyfer gwireddu elfennau o'r strategaeth a chyflogi dau swyddog prosiect. Mae Cyllid adfywio Llywodraeth Cymru hefyd wedi ei sicrhau a'i ddefnyddio i wella eiddo trefol mewn sawl lle ar draws yr Ynys.

**Gogledd Môn**
Pedwar eiddo masnachol trefol yn Amlwch wedi eu gwella gyda chymorth grant eiddo masnachol peilot newydd.

**Arwyddion newydd yn tynnu sylw at dreftadaeth Amlwch**
Mae arwyddion a dehongliadau newydd wedi cael eu codi o amgylch y dref i dynnu sylw at dreftadaeth ddiwydiannol cyfoethog Amlwch. Bydd yr arwyddion, byrddau dehongli a'r arwyddion dynodi llwybr modern, a groesawir yn fawr, hefyd yn helpu i gysylltu canol y dref gyda Phorth Amlwch, Llwybr Arfordir Ynys Môn a Mynydd Parys sydd gerllaw. Datblygwyd y prosiect mewn partneriaeth rhwng Cyngor Sir Ynys Môn a Magnox NDA, gyda chefnogaeth gan Gyngor Tref Amlwch.

**Rhaglen Arfor**
Ail raglen rhanbarth Arfor wedi ei sefydlu gyda chronfa £1m i gefnogi mentrau sy'n cefnogi'r Gymraeg a gwella'r economi Ynys Môn hefyd yn elwa o gynlluniau rhanbarthol Arfor sef Llwyddo'n Lleol 2050, Cronfa Her, a Bwrlwm Arfor.

**Cefnogi Cymunedau Gwledig**
Cyllid SPF wedi ei roi i nifer o brosiectau i gefnogi cynlluniau datblygu cymunedol ar draws Ynys Môn. Lobio ar gyfer anghenion gwledig wedi digwydd drwy Fforwm Gwledig Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Ymateb cryf wedi ei anfon i ymgynghoriad Lywodraeth Cymru ar eu cynlluniau 'Ffermio Cynaliadwy'.

**Porthladd Rhydd**
Mae Llywodraethau Cymru a'r DU wedi cymeradwyo cais Ynys Môn i fod yn un o borthladdoedd rhydd cyntaf Cymru, sydd â'r potensial i ddarparu gwir newid i gymunedau ledled Ynys Môn a rhanbarth ehangach gogledd Cymru.

Mae prosiect Porthladd Rhydd Ynys Môn yn cael ei ddatblygu ar y cyd fel partneriaeth gyhoeddus/breifat rhwng y Cyngor Sir a Stena Line - perchnogion Porthladd Caergybi a chyn safle Alwminiwm Môn sef un o gyflogwr pwysig yn lleol ers 27 mlynedd. Dymchwelwyd y simnai adnabyddus oedd ar y safle yn ystod mis Mawrth 2024, a daeth torf o bobl i wylio'r digwyddiad hanesyddol. Mae hyn yn gam cyntaf i ail-ddatblygu'r safle ar gyfer y dyfodol, er mwyn ceisio cynnig lleoliad delfrydol ar gyfer buddsoddiad newydd.

Rydym yn y broses o ddatblygu Achosion Busnes cynhwysfawr ar gyfer y prosiect, ac edrychwn ymlaen at gydweithio'n agos gyda phartneriaid dros y cyfnod cyffrous nesaf.

**Cwblhau'r gwaith o ehangu stad ddiwydiannol Penrhos**
Mae'r trydydd cam terfynol o brosiect i drawsnewid cyn safle diffaith yn barc busnes bellach wedi'i gwblhau. Mae 13 o unedau busnes wedi eu cwblhau yn ddiweddar ac maent ar gael i'w gosod yn dilyn estyniad i Stad Ddiwydiannol Penrhos, Caergybi. Cafodd y prosiect gwerth £6.2 miliwn ei ariannu'n rhannol gan yr ERDF (European Regional Development Fund) drwy Lywodraeth Cymru, yn dilyn cais llwyddiannus am gyllid gan dîm Datblygiad Economaidd Cyngor Môn. Wedi'i drawsnewid dros y ddwy flynedd diwethaf, mae'r safle bellach yn cynnwys cyfanswm o 23 o unedau busnes.

**Croesawu Prynu Safle Wylfa**
Mae'r cadarnhad bod Llywodraeth y DU wedi dod i gytundeb gwerth £160 Miliwn gyda Hitachi er mwyn prynu dau safle yn cynnwys Wylfa, a bod ganddo 'rôl hanfodol' i'w chwarae yn y ddarpariaeth o ddyheadau niwclear y DU i'w groesawu.

Gyda safle'r Wylfa yn dod yn ôl o dan reolaeth uniongyrchol y DU, gobeithiwn y bydd hyn yn arwain at ymrwymiad clir o ran pryd y bydd datblygiad yn digwydd. Mae cymunedau'r Ynys, yn enwedig rhai'r gogledd, angen cadarnhad ac eglurder.

**Galw am Drydedd Croesfan ar draws y Fenai**
Mae'r Pwyllgor Gwaith wedi cefnogi'n unfrydol yr alwad am drydedd groesfan ar draws y Fenai. Cyflwynodd y Cyngor ei dystiolaeth i Gomisiwn Trafnidiaeth Gogledd Cymru (CTGC) Llywodraeth Cymru. Yn ogystal â gwydnwch a thwf economaidd, mae'n hanfodol bod gennym gysylltiadau cadarn gyda'r tir mawr fel y gall trigolion fyw eu bywydau pob dydd - mynd i'r gwaith a chael mynediad at addysg a gwasanaethau iechyd a brys. Mae gan y cysylltiadau hyn rôl allweddol i'w chwarae o ran cynnal y cysylltiad rhwng Ynys Môn â gweddill y rhanbarth (ac i'r gwrthwyneb) a hyrwyddo'n proffil a'n henw da.

Felly byddwn yn parhau i bwyso a chydweithio efo'r Gweinidog Trafnidiaeth newydd i wella gwytnwch ar draws y Fenai er mwyn datrys y sefyllfa fregus bresennol.

**Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Ynys Môn**
Paratowyd Cynllun Rheoli AHNE newydd (2023-2028) yn ystod y flwyddyn. Mae Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Ynys Môn yn cwmpasu rhannau helaeth o arfordir dramatig Ynys Môn. Mae'n cynnwys rhan fwyaf o glogwyni a thraethau'r ynys, a llawer o'r tir amaethyddol a fforestydd sy'n ffurfio'r gefnlen i arfordir yr ynys. gydag economi arfordirol a gwledig llewyrchus ac amrywiol.

**Cynllun Rheoli Cyrchfan**
Cyflwynwyd Cynllun Rheoli Cyrchfan newydd ar gyfer 2023 i 2028 i gefnogi ymagwedd gydlynol tuag at reoli ymwelwyr yr Ynys. Rydym angen economi ymwelwyr cynaliadwy, sy'n cydbwyso anghenion trigolion, cymunedau ac ymwelwyr gan gynnal a gwella'r rhinweddau arbennig ar Ynys Môn, sef y prif reswm fod pobl yn ymweld â'r ynys. Byddwn yn sefydlu gweithgor er mwyn ymateb yn gydlynol a strategol, a gyrru'r gwaith yn ei flaen.

**Agor Canolfan Ymwelwyr Newydd yng Nghaergybi**
Agorwyd canolfan ymwelwyr modern newydd ym Mharc Gwledig y Morglawdd Caergybi sydd wedi ennill gwobrau fel rhan o gynllun Cymru gyfan i greu a gwella cyfleusterau allweddol i ymwelwyr.

**Tai**

**Dyma rhai o ystadegau gwasanaeth tai y Cyngor am y flwyddyn:**

- 77 o dai gwag yn ôl i ddefnydd
- 4 teulu wedi ymsefydlu o dan y cynllun ARAP
- 790 o aelwydydd wedi cysylltu efo'r Cyngor am eu bod dan fygythiad neu yn ddigartref
- 101 wedi bod mewn llety argyfwng neu dros dro yn ystod un wythnos ym mis Mawrth.
- Arolwg Cyflwr Stoc ar ein holl dai
- £8m wedi ei wario ar uwchraddio stoc tai cyfredol yn cynnwys mesurau effeithiolrwydd ynni
- Gwaith adnewyddu yng nghanolfan O'Toole, Caergybi a'r Tîm Cynhwysedd Ariannol

**Cynllun Prynu Cartref Môn**

Mae'r Cynllun Prynu Cartref Ynys Môn nawr yn defnyddio £390,000 o arian a sicrhawyd drwy'r premiwm ar ail dai i helpu trigolion lleol brynu eu cartref cyntaf.

Rhoddwyd pwerau i awdurdodau lleol i godi mwy o Dreth Gyngor ar eiddo sydd dim ond yn cael eu meddiannu bob hyn a hyn – ail dai neu eiddo gwag hirdymor - ar 1 Ebrill 2017.

Mae'r Cyngor yn gwneud y defnydd gorau posib o'r premiwm a'r cyllid y mae wedi'i dderbyn gan Lywodraeth Cymru. Y mae eisoes wedi ymrwymo bron i £1.5m tuag at gynlluniau o'r gronfa premiwm y dreth gyngor i gwrdd â'r gofyn am dai lleol a helpu prynwyr tro cyntaf. Mae'r Cynllun Prynu Cartref yn adeiladu ar y llwyddiant yma drwy ddarparu cymorth ychwanegol i drigolion lleol ar ffurf benthyciadau ecwiti i brynu tŷ.

Mae premiwm Treth y Cyngor yn cynnig cyfle unigryw i ymateb i'r argyfwng tai presennol. Ein nod yw cefnogi pobl leol i allu byw mewn tai fforddiadwy o safon yn eu cymunedau eu hunain. Rydym eisiau sicrhau bod gan bawb hawl i alw rhywle'n gartref.

**Fflatiau newydd ym Miwmares**

Dyma un o'r prosiectau diweddaraf i ddatblygu tai cyngor ar yr Ynys. Mae'n cynrychioli'n hymrwymiad parhaus i ddarparu tai cymdeithasol fforddiadwy i denantiaid lleol ynghanol y gymuned.

Mae cynyddu stoc dai'r Cyngor wedi'i gynnwys fel targed strategol yn ein Strategaeth Dai (2022-2027) ac mae ymateb i'r her tai lleol wedi'i nodi fel amcan strategol yng Nghynllun y Cyngor er mwyn sicrhau bod gan bawb rywle i'w alw'n 'gartref'. Mae'r fflatiau wedi cael eu dylunio i fod yn effeithlon o ran ynni, i gyd-fynd â Chynllun Tuag at Sero Net y Cyngor (2022 i 2025).

**Newid Hinsawdd**

**Lleihau ôl troed carbon asedau’r Cyngor.**
Bu’r Gwasanaeth Eiddo’r Cyngor yn llwyddiannus yn denu £14M mewn grantiau gwres carbon isel er mwyn uwchraddio ag ail-osod systemau gwres ar draws 27 o’n hasedau. Rhagwelir bydd y gwaith yma'n arwain at lleihad sylweddol mewn allyriadau carbon wrth i'r adeiladau drosi o danwyddau ffosil i systemau wresogi carbon isel (pympiau gwres ffynhonnell aer) ar gyfer eu gofynion gwresogi a dŵr poeth. Mae llwyddiant y Cyngor i ennill y lefel yma o fuddsoddiad yn arwydd o’n ymroddiad i leihau ein hallyriadau carbon a pha mor flaengar rydym wedi bod i fanteisio ar gyfleoedd am gyllidebau allanol.

**Trawsnewid ein fflyd i gerbydau trydan mewn i gyrraedd statws sero net**

Dros y flwyddyn, mae’r Cyngor wedi parhau ar y siwrne i drawsnewid ei fflyd i gerbydau trydan.

Yn ddiweddar, derbyniodd y Cyngor ddau lwythwr skid-steer trydan newydd. Prynwyd 7 cerbyd dros y flwyddyn sy’n dod a’r cyfanswm at 22 cerbyd – 10% o’n fflyd bellach yn gerbydau trydan.

Mae trawsnewid ein fflyd o gerbydau disel i gerbydau trydan yn gam bwysig i gyrraedd statws sero net. Bydd hyn yn helpu ein nod o leihau allyriadau $CO_2$ a lleihau costau rhedeg.

**Ymestyn rhwydwaith gwefru cyhoeddus Ynys Môn.**

Er mwyn annog dinasyddion ac ymwelwyr i ddewis teithio’n carbon isel, mae’r Cyngor wedi ymestyn ei rwydwaith pwyntiau gwefru cerbydau trydan drwy sefydlu pwyntiau newydd yn Rhosneigr a Cemaes. Mae’n galonogol hefyd i weld defnydd y rhwydwaith yn cynyddu.

**Miloedd o Goed yn cael eu plannu i roi hwb i dargedau sero net**

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn arwain prosiect arloesol lle bydd miloedd o goed yn cael eu plannu mewn meithrinfa goed newydd ar yr ynys. Mae’r prosiect yn cael ei arwain gan dîm AHNE Cyngor Sir Ynys Môn, a bydd oddeutu 10,000 o goed llydanddail brodor yn tyfu yng Ngerddi Haulfre, Llangoed bob blwyddyn.

Fel rhan o’r gwaith o redeg y blanhigfa o ddydd i ddydd, bydd y Cyngor yn gweithio gyda nifer o grwpiau cymunedol, canolfannau addysg a chleientiaid lleol yng Nghanolfan Adnoddau Blaen y Coed. Plannwyd 400 o goed yng Nghaergybi hefyd gyda plotiau rhandiroedd newydd wedi eu sefydlu.

**Yr Iaith Gymraeg**

**Statws i’r Gymraeg**
Roedd gwneud y Gymraeg yn amcan strategol yng Nghynllun y Cyngor ar gyfer 2023-28 yn gam pwysig sy’n cadarnhau statws yr iaith o fewn y Cyngor. Cymraeg yw iaith naturiol y sefydliad; mae ein gwasanaethau ar gael yn Gymraeg yn gwbl ddi-gwestiwn ers tro, ac rydym wedi cymryd camau breision dros y blynyddoedd diwethaf i gynyddu defnydd o’r iaith yn ein gweinyddiaeth.

**Llythyr llongyfarch gan y Comisiynydd**

Derbyniom lythyr ym mis Rhagfyr gan Gomisiynydd y Gymraeg yn ein llongyfarch ar gwrdd â'n dyletswyddau iaith Gymraeg. Yn sgil gwaith casglu tystiolaeth fanwl, fe wnaeth y Comisiynydd ganfod ein bod wedi cwrdd â'r holl ofynion a aseswyd gan ei swyddogion yn ystod y flwyddyn. Mae'n destun balchder bod y rheoleiddiwr yn cydnabod ein hymroddiad i'r iaith ac yn rhoi sicrwydd i ni fod ein gwasanaethau Cymraeg o ansawdd uchel.

**Dysgu a datblygu**
Mae diddordeb mewn dysgu a gwella sgiliau iaith Gymraeg ar gynnydd ymhlith swyddogion. Dyblodd y niferoedd ar gyrsiau dysgu Cymraeg eleni a diolch i gefnogaeth y Ganolfan Ddysgu Cymraeg Cenedlaethol mae gennym dri dosbarth sy'n cyfarfod yn wythnosol. Hoffwn longyfarch y swyddogion am eu cynnydd yn ystod y flwyddyn a dymuno'r gorau wrth iddynt gymryd y cam nesaf gyda'u dysgu.

I gefnogi swyddogion sy'n dysgu neu am roi sglein ar eu sgiliau Cymraeg, creodd y tîm Dysgu a Datblygu ddashfwrdd newydd. Y nod yw dwyn ynghyd yr holl adnoddau sydd ar gael i helpu swyddogion mewn un man hwylus. Mae'n cynnwys gwybodaeth am gyrsiau, cymorth sillafu, tips i ddefnyddio mwy o Gymraeg yn y gwaith a llawer mwy.

**Grŵp Hyrwyddo'r Gymraeg**
Cyfarfu'r grŵp yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn i drafod cynlluniau i wella ein gwasanaethau Cymraeg ac i gynyddu defnydd o'r iaith yn ein gweinyddiaeth. Un o lwyddiannau'r flwyddyn oedd datblygu dangosyddion newydd er mwyn tracio cynnydd yn erbyn ein hamcanion.

**Gweithio mewn partneriaeth**
Braf oedd gweld un o garedigion yr iaith, â'n cyn brif weithredwr Annwen Morgan, yn cael ei phenodi'n gadeirydd Fforwm Iaith Ynys Môn. Mae'n bwysig cydnabod gwaith arbennig yr holl aelodau sy'n helpu cynnal y Gymraeg fel iaith fyw yn ein cymunedau. Braint yw cael cyfrannu at drafodaethau a chynlluniau'r corff dylanwadol hwn a edrychaf ymlaen at barhau â'r gwaith da dan arweiniad Annwen.

Ar y cyd gyda sefydliadau cyhoeddus eraill gogledd Cymru, cynhaliom ymchwil arloesol i helpu recriwtio siaradwyr Cymraeg a gobeithiwn y bydd sefydliadau eraill yn dysgu o'n harferion yma ym Môn.

**Cydnabyddiaeth Cenedlaethol**
Mesur arall o lwyddiant eleni oedd y sylw a roddwyd i'n gwaith mewn digwyddiadau cenedlaethol, yn cynnwys Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd. Mae Comisiynydd y Gymraeg a Swyddfa Archwilio Cymru yn ystyried ein cynlluniau i hybu'r Gymraeg o fewn y Cyngor â'n cymunedau yn esiampl o arfer orau i'w efelychu gan eraill. Mae hyn yn destun balchder arbennig i mi fel arweinydd ac yn cadarnhau bod y Cyngor yn arwain yn y maes hwn.

**Gair i gloi**

Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar faterion lleol fwyaf, ond mae'n bwysig nodi fy mod fel Arweinydd yn cael mewnbwn rhanbarthol drwy'r Bwrdd Arweinyddiaeth Ranbarthol a'r Bwrdd Uchelgais. Hefyd, yn genedlaethol rwy'n Arweinydd Grŵp Plaid Cymru ar Gyngor Llywodraeth Leol Cymru ac yn llefarydd gwasanaethau cymdeithasol. Mae hyn yn ychwanegu i'n gallu ni fel Cyngor i ddylanwadu a chyfrannu yn rhanbarthol a chenhedlaeth.

Ond, mae angen nodi bod Llywodraeth Leol ledled y wlad yn wynebu dyfodol ansicr yn dilyn dros ddegawd o doriadau. Mae'r gwasanaethau rydym yn gyfrifol amdanynt yn hanfodol bwysig i wneuthuriad ein gwlad, ond mae Llywodraeth yn mynnu torri'n flynyddol. Er hyn, rydym fel Awdurdod yn cyflawni yn ddyddiol yn addysgu'r genhedlaeth nesaf a gofalu am y genhedlaeth hŷn, rydym yn brwydro dros economi teg a chymdeithas gyfartal a dros y Gymraeg.

Rwy'n hynod ffodus o gael ysgrifennu fy seithfed adroddiad arweinydd ac mae pob un wedi bod yn wahanol gyda nifer o lwyddiannau i ymfalchïo ynddynt. Er yr holl heriau, eto eleni mae staff y Cyngor wedi profi ein gallu i wneud y gorau dros yr ynys. Mae fy niolch yn enfawr i fy Ngrŵp a chyd aelodau sydd wedi sicrhau llwyddiannau'r flwyddyn. Ond yn fwy na dim, hoffwn ddiolch o galon i staff y Cyngor sy'n gwasanaethu ar ein rhan. Braint o'r mwyaf yw cael arwain y Cyngor gorau yng Nghymru!

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **Cyngor Sir** |
| **DYDDIAD:** | **21 Mai 2024** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Sgriwtini 2023/24** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Cadeiryddion y:**<br>1. **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol**<br>2. **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Adrodd ar waith y ddau bwyllgor sgriwtini yn ystod 2023/24 a darparu trosolwg o raglen waith sgriwtini ar gyfer 2024/25** |
| **DEILYDD(ION) PORTFFOLIO:** | **Ddim yn berthnasol** |
| **CYFARWYDDWR / PENNAETH GWASANAETH:** | **Lynn Ball, Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro** |
| **AWDUR ADRODDIAD:** | **Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini**<br>**AnwenDavies@ynysmon.llyw.cymru**<br>**07971167198** |
| **AELODAU LLEOL:** | **Perthnasol i'r holl Aelodau Sgriwtini** |

## 1. Argymhellion

Gofynnir i'r Cyngor:

**A1** Gymeradwy'r Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Sgriwtini ar gyfer 2023/24

**A2** Nodi'r cynnydd parhaus sy'n cael ei wneud o ran ein siwrnai ddatblygu Sgriwtini a'r effaith y mae hyn yn ei gael ar ymarfer

**A3** Penodi cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn Bencampwr Sgriwtini ar gyfer y cyfnod rhwng Mai 2024 a Mai 2025.

## 2. Cefndir a Chyd-destun

**2.1** Mae'r Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Sgriwtini hwn yn trafod y gwaith a wnaed gan y ddau bwyllgor sgriwtini ar gyfer y cyfnod rhwng Mai 2023 a Mai 2024.

**2.2** Bu i gadeiryddion y ddau bwyllgor sgriwtini arwain ar ddatblygu'r blaen raglenni gwaith yn ystod y cyfnod hwn. Caiff blaen raglenni gwaith y pwyllgorau sgriwtini eu cyflwyno i'r Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Sgriwtini a gynhelir yn rheolaidd ac i bob cyfarfod o'r pwyllgorau sgriwtini ar gyfer eu cymeradwyo.

**2.3** Tra bod effaith a gwerth gweithgaredd sgriwtini yn parhau i wneud cyfraniad ystyrlon at flaenoriaethau corfforaethol y Cyngor drwy gymorth ac her, mae'r Awdurdod Lleol o'r farn ei bod bellach yn amserol i gwblhau adolygiad o'r trefniadau craffu presennol. Mae'r adolygiad allanol hwn yn mynd rhagddo ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn a disgwylir i'r canfyddiadau a'r argymhellion fod ar gael erbyn mis Awst, 2024. Bydd unrhyw argymhellion yn cael eu trosi'n rhaglen ddatblygu ac y bydd cynnydd yn cael ei fonitro gan y Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Sgriwtini.

## 3. Rôl y Pencampwr Sgriwtini

**3.1** Mae gan y Pencampwr Sgriwtini rôl bwysig o ran hyrwyddo'r swyddogaeth trosolwg a sgriwtini yn y Cyngor a gyda phartneriaid allanol yr Awdurdod. Nid yw'n swydd fandadol ac ni cheir unrhyw gydnabyddiaeth ariannol am ei gwneud. Ystyrir bod y rôl yn allweddol wrth ddangos ymrwymiad yr Awdurdod i sicrhau bod Sgriwtini yn gwneud y gorau o gyfraniad Aelodau nad ydynt yn aelodau'r Pwyllgor Gwaith i berfformiad cyffredinol ac "iechyd corfforaethol" y sefydliad.

**3.2** Ar 14 Mai 2015, penderfynodd y Cyngor y dylid penodi Cadair y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn Bencampwr Sgriwtini ar gyfer y cyfnod rhwng Mai 2025 a Mai 2026 ac y byddai'r rôl yn cael ei gwneud gan y ddau gadair sgriwtini bob yn ail. O'r herwydd, dylid penodi Cadair y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol fel y Pencampwr Sgriwtini am y flwyddyn nesaf.

| **Atodiad:** |
|---|
| Adroddiad Blynyddol Trosolwg a Sgriwtini ar gyfer 2023/24 |

# Adroddiad Blynyddol

# Trosolwg a Sgriwtini: 2023-24



Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| 1 | Rhagair |
| 2 | Ein strwythur lleol |
| 3 | Themâu allweddol lleol ar gyfer Sgriwtini |
| 4 | Asesu effaith Sgriwtini |
| 5 | Edrych ymlaen i 2024/25 |
| 6 | Cysylltu â Sgriwtini |

| ATODIADAU | |
|---|---|
| Atodiad 1 | Beth ydy trosolwg a sgriwtini? |
| Atodiad 2 | Cylch Gorchwyl ac aelodaeth ein Pwyllgorau Sgriwtini |
| Atodiad 3 | Y Weledigaeth ar gyfer Sgriwtini Effeithiol yn y Cyngor |




Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

# 1. RHAGAIR

## Cynghorydd Douglas Massie Fowlie



- **Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 2023/24**

Mae'n bleser gennyf ddarparu trosolwg o waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn ystod y 12 mis diwethaf. Trafodir cwmpas gwaith y Pwyllgor yn yr adroddiad hwn ac mae'n deg nodi bod y llwyth gwaith yn parhau i fod yn sylweddol ac yn amrywiol. Cynhaliwyd cyfanswm o 9 cyfarfod yn ystod y flwyddyn ddinesig.

- **Gosod y gyllideb flynyddol 2024/25** – un o brif gyfrifoldebau'r Pwyllgor yw cyfrannu at y broses o osod cyllideb flynyddol y Cyngor. Mae'r gwaith hwn yn rhan bwysig o'n trefniadau llywodraethu corfforaethol ac mae'n cael effaith bellgyrhaeddol ar bob un o feysydd gwasanaeth y Cyngor yn ogystal ag ar y cyhoedd. Ystyriodd y Pwyllgor y cynigion drafft cychwynnol ar gyfer y gyllideb a hefyd y gyllideb derfynol ddrafft ar gyfer 2024/25 gyda chyfraniad sylweddol gan y Panel Sgriwtini Cyllid eto eleni – gyda'r Panel yn cwblhau gwaith craffu manwl ar y cynigion ar gyfer y gyllideb refeniw a chyfalaf ar ran y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.

- **Cynllun y Cyngor: 2023-2028** – bu Aelodau'n craffu ar nifer o gynlluniau strategol allweddol, a phan fyddant yn weithredol, byddant yn galluogi'r Awdurdod Lleol i gyflawni'r 6 amcan strategol allweddol yng Nghynllun y Cyngor ar gyfer 2023-2028. Mae'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol wedi craffu'r cynlluniau canlynol:

    - Y Ddogfen Gyflawni Flynyddol: 2023/24
    - Cynllun Strategol Tai Gwag
    - Cynllun Strategol Cyfranogiad Tenantiaid
    - Cynllun Strategol Rheoli Asedau (Tai)
    - Cynllun Strategol Rheoli Asedau
    - Cynllun Rheoli Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
    - Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg

Gwelwyd y Pwyllgor yn argymell y dylid mabwysiadu'r cynlluniau strategol hyn gan ddarparu cyfeiriad clir ar gyfer blaenoriaethau strategol y Cyngor dros y pum mlynedd nesaf.

- **Monitro perfformiad chwarterol** – bu'r Pwyllgor yn monitro perfformiad chwarterol trwy gydol 2023/24, gan ddefnyddio'r cerdyn sgorio corfforaethol sydd yn adrodd ar ystod sylweddol o ddangosyddion ar gyfer pob maes gwasanaeth**.** Mae'r cerdyn sgorio yn parhau i esblygu fel dull effeithiol i Aelodau Etholedig graffu ar berfformiad a data holl wasanaethau'r Cyngor. Ym mis Ionawr 2024, sefydlodd y Pwyllgor Grŵp Tasg a Gorffen i edrych yn fanwl ar berfformiad lleol y Gwasanaeth Tai yn erbyn Dangosydd Perfformiad Allweddol 29 (nifer cyfartalog o ddyddiau calendr i osod unedau llety y mae modd eu gosod - ac eithrio Eiddo Anodd ei Osod)**.** Rhagwelir y bydd canlyniad y gwaith craffu yn cael ei adrodd ar ddechrau'r flwyddyn ariannol nesaf (Mehefin 2024).

- Roedd ein gwaith fel Pwyllgor hefyd yn cynnwys monitro a chraffu ar Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2022/23. Mae hon yn elfen graidd o waith y Pwyllgor Sgriwtini.

- **Gwasanaethau Tai** – Craffodd y Pwyllgor ar y Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai 2024-54 sy'n gosod cyfeiriad ar gyfer datblygu a chynnal a chadw stoc tai cyngor yr Awdurdod. Rhoddwyd ffocws penodol ar y themâu canlynol gan yr Aelodau – aliniad gyda blaenoriaethau strategol ehangach y Cyngor (Cynllun y Cyngor: 2023-2028); fforddiadwyedd y rhaglen ehangu i gynyddu stoc tai'r Awdurdod Lleol; cyflenwad o lety digonol ar gyfer oedolion a theuluoedd sy'n fregus a'r risgiau ynghlwm wrth yr angen am gapasiti mewnol ac allanol digonol i wireddu'r cynlluniau. Argymhellodd y Pwyllgor fod y cynllun busnes yn cael ei fabwysiadu gan y Cyngor.

- **Gwasanaethau Cymdeithasol** – yn olaf, ym mis Tachwedd 2023 craffodd Aelodau ar y cynnydd wnaed wrth wireddu cynlluniau datblygu'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd a Gwasanaethau Oedolion. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Cynllun Gweithredu Ôl-Arolwg Gwerthuso Perfformiad (arolwg arferol gan Arolygiaeth Gofal Cymru o berfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol). Ar ddiwedd y flwyddyn ddinesig, bu i'r Pwyllgor edrych mewn manylder ar y Strategaeth Plant a Phobl Ifanc mewn Gofal cyn iddi gael ei hystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn y Gwanwyn. Argymhellodd y Pwyllgor fod y strategaeth yn cael ei mabwysiadu fel un sy'n darparu cyfeiriad clir i'r Cyngor gyflawni ei ymrwymiadau statudol ar gyfer plant a phobl ifanc mewn gofal.

Rydw i'n cydnabod gwaith y Panel Sgriwtini Cyllid a'r Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol a hoffwn ddiolch i holl Aelodau'r Pwyllgor a'r swyddogion sydd wedi cynorthwyo yn ystod 2023/24. Hoffwn hefyd fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'r Is-gadair, y Cynghorydd Dyfed Wyn Jones, am ei gefnogaeth yn ystod y 12 mis diwethaf.

**Cynghorydd Douglas Massie Fowlie**
**(Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol)**

## Cynghorydd Dylan Rees



- **Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio 2023/24**
- **Pencampwr Sgriwtini → 2023/24**

Credaf fod y broses graffu'n chwarae rôl allweddol yn nhrefniadau llywodraethiant corfforaethol y Cyngor - trwy ddwyn y rhai sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif, herio mewn modd adeiladol ac yn sicrhau bod lleisiau'r cyhoedd a'n cymunedau yn cael eu clywed yn y broses o wneud penderfyniadau. Mae'n Protocol Siarad Cyhoeddus mewn Pwyllgorau Sgriwtini yn dystiolaeth o ymrwymiad y Cyngor ac yn ffurfioli'r broses i'r cyhoedd leisio eu barn yn y Pwyllgorau Sgriwtini.

Hoffwn ddiolch i Aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio am eu cyfraniadau a'u hymrwymiad i waith y Pwyllgor sydd wedi gwneud cyfraniad pwysig i wireddu Cynllun y Cyngor ac wrth gynnal safonau ein gwasanaethau cyhoeddus.

Mae'n bleser gennyf ddarparu trosolwg o waith y Pwyllgor dros y 12 mis diwethaf. Mae'r Pwyllgor wedi gwneud argymhellion teg a chadarn i'r Pwyllgor Gwaith ar sawl pwnc a maes allweddol dros y cyfnod hwn a hefyd gwaith partneriaid yr Awdurdod:

- **Yr Iaith Gymraeg** – edrychodd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ar un o chwe amcan strategol Cynllun y Cyngor ar gyfer 2023-2028 sef yr Iaith Gymraeg. Mae'r Gymraeg yn rhan annatod o'n hunaniaeth, ein diwylliant a'n treftadaeth ac mae cyfrifoldeb arnom i sicrhau fod yr iaith yn parhau i ddatblygu a ffynnu. Rydym eisiau gweld nifer y bobl ar Ynys Môn sy'n siarad Cymraeg yn cynyddu a chynnydd yn nifer y bobl sy'n defnyddio'r iaith bob dydd. Bu i'r Aelodau graffu ar y meysydd canlynol yn arbennig –

  I. Adroddiad Blynyddol ar Safonau'r Gymraeg: 2022/23
  II. Cynllun y Gymraeg mewn Addysg 2022/23 – Mesur Cynnydd
  III. Adroddiad Cynnydd y Panel Sgriwtini Addysg.

- **Moderneiddio Cyfleon Dydd: Anableddau Dysgu (ardal Caergybi)** – edrychodd y Pwyllgor Sgriwtini ar y cynigion i foderneiddio a thrawsnewid cyfleon dydd ar gyfer unigolion ag anableddau dysgu yn ardal Caergybi. Ystyriodd yr Aelodau gynigion i integreiddio defnyddwyr gwasanaeth yn y gymuned ac ymateb i dyheadau pobl sy'n mynychu gweithgareddau (er mwyn cyflawni gwell ganlyniadau ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth). Bydd hyn yn caniatau i'r Gwasanaeth barhau i drawsnewid a moderneiddio'r ffordd o ddarparu gwasanaethau dydd ar hyd a lled yr Ynys.

- **Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr** – cynhaliwyd cyfarfod ychwanegol o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ym mis Tachwedd 2023 i groesawu Cadair Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Roedd y cyfarfod yn fforwm ar gyfer trafodaeth gadarnhaol ac adeiladol gyda'r Bwrdd Iechyd a rhoddwyd ffocws ar y meysydd allweddol canlynol lle mae'r ddau gorff yn cydweithio

  ✓ Rhaglen Wella'r Bwrdd Iechyd – trosolwg lefel uchel
  ✓ Gwytnwch Gwasanaethau Clinigol Cymunedol ar Ynys Môn
  ✓ Cydweithio rhwng y Bwrdd Iechyd a Gwasanaethau Oedolion Cyngor Sir Ynys Môn



Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

Gofynnodd y Pwyllgor gwestiynau craffu cychwynnol ac atodol perthnasol ac yn sgil hynny craffwyd yn adeiladol ar bartner strategol allweddol yr Awdurdod Lleol.  Un canlyniad gwirioneddol a ddeilliodd o'r cyfarfod hwn yw bod y Bwrdd Iechyd wedi cytuno i ddychwelyd yn flynyddol.

- **Cynllun y Cyngor: 2023-2028** – bu i Aelodau graffu ar nifer o gynlluniau strategol allweddol ac ar ôl iddynt gael eu rhoi ar waith byddant yn caniatau i'r Awdurdod Lleol wireddu 6 amcan strategol Cynllun y Cyngor ar gyfer 2023-2028.  I'r perwyl hwnnw, craffodd y Pwyllgor Sgriwtini ar y cynlluniau a ganlyn –
    i. Cynllun Strategol Cyfranogiad Cyhoeddus
    ii. Cynllun Strategol Gwastraff ac Ail-gylchu
    iii. Cynllun Strategol Cydraddoldeb
    iv. Cynllun Strategol Taclo Tlodi

- **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ynys Môn a Gwynedd (BCG)** – Mae'r Pwyllgor yn arwain ar y gwaith o graffu ar waith y Bwrdd, sy'n bartneriaeth rhwng Gwynedd ac Ynys Môn. Mae hyn yn cynnwys craffu ar wireddu'r Cynllun Llesiant, trefniadau llywodraethiant a'r Adroddiad Blynyddol.  Yn ystod blwyddyn ddinesig 2023/24, rhoes yr Aelodau ystyriaeth fanwl i adroddiad blynyddol y Bwrdd ar gyfer 2022/23 a gwelwyd esiamplau o waith craffu o ansawdd wrth i'r Aelodau ofyn pa gamau a gymerir gan y Bwrdd pan fydd ffrydiau gwaith unigol yn llithro.

- **Uchelgais Gogledd Cymru** – bu i'r Pwyllgor graffu ar yr adroddiadau monitro chwarterol a chodwyd cwestiynau priodol ynghylch cynnydd yn erbyn y prosiectau ar waith ee pa fesurau lliniaru bydd mewn lle i gyfarch unrhyw lithriad a sut y bydd risgiau posib o orwario mewn prosiectau unigol yn cael eu rheoli.  Dyma'r Pwyllgor dynodedig sy'n craffu ar waith Uchelgais Gogledd Cymru – rôl hanfodol er mwyn sicrhau y buddion economaidd mwyaf i Ogledd Cymru ac Ynys Môn yn benodol.

- **Craffu Addysg** – ychwanegodd Aelodau werth drwy graffu ar feysydd allweddol yn gysylltiedig â gwasanaethau addysg ar Ynys Môn ac edrychodd y Panel Sgriwtini Addysg yn fanwl ar rai meysydd blaenoriaeth –
    i. Model Cydweithio Integredig ar gyfer Ynys Môn (Plant mewn Gofal)
    ii. NEST – Y fframwaith iechyd meddwl a llesiant
    iii. Deddfwriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad
    iv. Ysgolion mewn Categori, Dilyniant Estyn neu'n Derbyn Cefnogaeth Ychwanegol
    v. Adroddiad Blynyddol GwE ar gyfer Ynys Môn: 2022/23

  Yn ystod y flwyddyn, derbyniodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am safonau mewn ysgolion ar Ynys Môn ynghyd â sicrwydd fod mesurau gwella ar waith a bod ysgolion y mae pryderon yn eu cylch yn derbyn cefnogaeth briodol.

  Mae'r crynodeb uchod yn dangos sut mae gwaith y Pwyllgor Sgriwtini wedi ychwanegu gwerth i broses gwneud penderfyniadau'r Cyngor dros y 12 mis diwethaf.  Fodd bynnag, credaf y gellir ychwanegu hyd yn oed mwy o werth pe bae holl aelodau'r Pwyllgor yn chwarae eu rhan.  Mae presenoldeb rhai Aelodau mewn cyfarfodydd wedi bod yn wael ac mae'r pryder hwn wedi'i godi yng nghyfarfodydd y Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Sgriwtini.

Hoffwn ddiolch i aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ac aelodau'r Panel


Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

Sgriwtini Addysg am y gwaith tîm effeithiol dros y flwyddyn ddiwethaf.  Mae'r Aelodau wedi llwyddo i addasu a sicrhau bod y swyddogaeth sgriwtini'n parhau i weithio'n hybrid a chyflawni gwaith craffu mewn ffordd arloesol, gan wneud y defnydd gorau o amser swyddogion ac Aelodau Etholedig.

Yn olaf, diolchaf yn ddiffuant i'r swyddogion yn y Tîm Sgriwtini am eu harweiniad, cefnogaeth a chymorth parod pob amser.

**Cynghorydd Dylan Rees**
**(Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio)**

### Moderneiddio Ein Trefniadau Cynnal Cyfarfodydd

**1.1** Ers Mehefin, 2022 ac yn unol â gofynion statudol[1], mae datrysiad hybrid ar waith sy'n hwyluso cynnal cyfarfodydd aml-leoliad yn Siambr y Cyngor a'r Ystafell Bwyllgor. Mae'r trefniadau hyn yn sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio'n llawn â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae cyfarfodydd ein 3 phanel sgriwtini yn parhau i fod yn rai rhithiol ar y cyfan.

**1.2** Mae'r ddau Bwyllgor wedi cyfarfod yn rheolaidd ac wedi cwblhau'r gwaith craffu a oedd yn flaenoriaeth yn ystod 2023/24. Mae'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol wedi craffu'n llwyddiannus, gan sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei amcanion corfforaethol a'i amcanion ar gyfer ei wasanaethau hefyd. Mae'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio wedi craffu ar ambell i bartneriaeth allweddol ac wedi cydymffurfio â'r holl ofynion statudol. Fodd bynnag, roedd capasiti yn y Gwasanaethau Democrataidd yn rhwystro datblygiad rhaglen ehangach o graffu ar bartneriaethau (y tu hwnt i'n gofynion statudol). Aethpwyd i'r afael â'r materion capasiti hynny ac mae gwaith cynllunio bellach ar y gweill er mwyn bod y gwaith craffu ehangach hwn yn cael ei gyflawni'n llawn yn ystod 2024/25 a thu hwnt.

### Cyfleon Hyfforddi a Datblygu

**1.3** Llwyddodd yr Awdurdod i ddarparu rhaglen hyfforddiant anwytho corfforaethol yn dilyn Etholiad 2022. Dilynwyd hyn gan raglen hyfforddi bwrpasol ar gyfer Aelodau Etholedig sydd ar y pwyllgorau a phanelau sgriwtini. Mae'r rhaglen hyfforddi a datblygu'n un barhaus ac yn darparu cyfleon i hunan werthuso effaith gwaith sgriwtini Aelodau ar ein trefniadau llywodraethu corfforaethol.


**1.4** Byddwm yn adolygu ein rhaglen hyfforddi Aelodau eto pan fydd canfyddiadau'r adolygiad presennol o'n trefniadau sgriwtini ar gael er mwyn sicrhau bod yr amodau cael eu creu ar gyfer gwelliant parhaus a chraffu cadarn gan Aelodau Etholedig.

## 2 EIN STRWYTHUR LLEOL

Mae pwyllgorau sgriwtini yn rhan o'r ffordd y mae llywodraeth leol yng Nghymru yn gweithredu. Eu prif bwrpas ydy dal y rheini sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif, gyrru gwelliannau, gweithredu fel llais y gymuned a chwarae rhan yn y gwaith o ddatblygu ac adolygu polisïau. Trafodir crynodeb o'r cyd-destun polisi cenedlaethol yn **ATODIAD 1.**

[1] Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

**2.1** Mae ein strwythur lleol yn cynnwys 2 bwyllgor sgriwtini a thri phanel:




Rhoddir crynodeb o gylch gorchwyl ac aelodaeth ein pwyllgorau sgriwtini yn **ATODIAD 2.**


# 3 THEMÂU ALLWEDDOL LLEOL AR GYFER SGRIWTINI

### 3.1 Themâu Allweddol

Gwelwyd ein rhaglenni gwaith sgriwtini lleol yn blaenoriaethu themâu allweddol (ceir crynodeb ohonynt isod), er mwyn darparu fframwaith cadarn i:

- Esbonio rôl a chyfraniad Sgriwtini at drefniadau llywodraethiant y Cyngor
- Nodi'r camau y mae angen eu cymryd yn y tymor byr a'r tymor canol er mwyn gwella Sgriwtini ymhellach yng nghyd-destun y cyfnod y tu hwnt i'r Pandemig a gofynion deddfwriaethol cyfredol.

**THEMÂU ALLWEDDOL LLEOL SGRIWTINI**



# 4 ASESU EFFAITH SGRIWTINI

## 4.1 MESUR ALLBYNNAU

Llwyddodd Sgriwtini i sicrhau nifer o **allbynnau** pwysig yn ystod y flwyddyn sirol ddiwethaf sy'n mynd rhywfaint o'r ffordd tuag at ein cynorthwyo i asesu'r effaith y mae'r swyddogaeth wedi ei chael yn lleol:

**4.1.1 Cyfarfodydd pwyllgor –** cynhaliwyd 19 o gyfarfodydd pwyllgorau sgriwtini yn ystod 2023/24:

| Pwyllgor | Nifer y cyfarfodydd a gynhaliwyd |
|---|---|
| Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | **9** |
| Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio | **10** |

Mae trefniadau cadarn hefyd wedi'u sefydlu i sicrhau bod cadeiryddion y pwyllgorau sgriwtini yn rhoi adborth yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith ar faterion sydd wedi cael eu hystyried gan y ddau bwyllgor.

**4.1.2 Cyfarfodydd y Panelau Sgriwtini –** cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd o'r 3 phanel sgriwtini dros y 12 mis diwethaf:

| Panel | Nifer y cyfarfodydd a gynhaliwyd |
|---|---|
| Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol | **9** |
| Panel Sgriwtini Cyllid | **9** |
| Panel Sgriwtini Addysg | **10** |

Mae gweithrediad y paneli hyn wedi cael ei sefydlu'n gadarn drwy:

- Sefydlu trefniadau llywodraethiant cadarn i gefnogi pob panel
- Sicrhau ffocws / cylch gorchwyl a rhaglen waith clir ar gyfer y panelau
- Sefydlu proses adrodd / uchafu er mwyn sicrhau yr adroddir ar waith y panelau sgriwtini yn chwarterol i'r ddau Riant Bwyllgor, gyda Chadeiryddion y Panelau'n cynnig argymhellion ar gynlluniau neu benderfyniadau arfaethedig
- Sicrhau'r cyflymder priodol ar waith y panelau sy'n cydymffurfio â blaenoriaethau corfforaethol a chraffu manwl ar bynciau hollbwysig i'r Cyngor.

**4.1.3 Blaen raglenni gwaith** – mae'r arfer o flaen raglennu gwaith wedi hen sefydlu ac mae hynny'n atgyfnerthu gwaith y ddau bwyllgor sgriwtini ynghyd â'r panelau. Mae'r rhaglenni hyn yn bwysig o ran cynorthwyo aelodau pwyllgorau sgriwtini i flaenoriaethu eu gwaith

ac maent yn cael eu trafod gyda'r Tîm Arwain a'r Penaethiaid Gwasanaeth. Mae'r naill bwyllgor a'r llall a hefyd y 3 phanel yn adolygu cynnwys eu blaen raglenni gwaith yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn berthnasol ac er mwyn cadw ar y blaen â blaenoriaethau lleol. Mae ein trefniadau blaen raglennu gwaith yn canolbwyntio fwyfwy ar:

i. Agweddau strategol
ii. Ymgysylltiad dinasyddion / rhanddeiliaid eraill a chanlyniadau
iii. Blaenoriaethau Cynllun y Cyngor ar gyfer 2023-2028
iv. Risgiau
v. Gwaith archwilio, arolygu a rheoleiddio
vi. Materion ar flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith.

**4.1.4 Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion -** mae'r Fforwm wedi'i hen sefydlu ac yn parhau i gwrdd yn rheolaidd. Ystyrir y Fforwm yn gyfrwng pwysig i oruchwylio rhaglenni gwaith y pwyllgorau sgriwtini ac i gyd-drafod y blaenoriaethau â Chadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Sgriwtini. Mae hefyd yn cymryd y cyfrifoldeb am arwain ar y gwaith o ddatblygu swyddogaeth drosolwg a sgriwtini'r Cyngor a'i gwella'n barhaus. Mae rôl y Fforwm wedi esblygu i gynnwys sgyrsiau rhwng y Pwyllgor Gwaith (Arweinydd), Cadeiryddion/Is-gadeiryddion Sgriwtini a'r Tîm Arwain (Prif Weithredwr) er mwyn sicrhau gwell aliniad rhwng rhaglenni gwaith**.**

**4.1.5 Datblygu, hyfforddi a chefnogi Aelodau –**

- ✓ derbyniodd Aelodau Etholedig fewnbynnau hyfforddi a datblygu penodol i Sgriwtini yn sgil Etholiad 2022 (Cyflwyniad i Sgriwtini; Cadeirio Pwyllgorau Sgriwtini; Sgriwtini Effeithiol / Strategaethau Cwestiynu; technoleg – uwchsgilio Aelodau gyda'r amcan o sicrhau bod pawb yn gallu cymryd rhan yn effeithiol mewn cyfarfodydd aml-leoliad). Y flaenoriaeth yn ystod 2023/24 fu ffocws ar fewnbynnau hyfforddi a datblygu:

**i.** ar gyfer unigolion yn newydd i'w rôl (Aelodau Cyfetholedig a swyddogion yn cefnogi Sgriwtini Aelodau Etholedig)
**ii.** ffocws parhaus ar dechnoleg (uwchsgilio Aelodau)

- ✓ cynnal sesiynau briffio misol ar gyfer rhannu gwybodaeth / codi ymwybyddiaeth Aelodau ar faterion allweddol (ee Casglu Gwastraff Gwyrdd, Heddlu Gogledd Cymru – ymgysylltu gyda'r Tîm Plismona Lleol; Moderneiddio Cyfleon Dydd (Anableddau Dysgu) ac Eco-System Addysg (gwaith partneriaethol addysg) . Hefyd, fel fforwm ar gyfer hunan-asesiad Aelodau / adlewyrchu ar berfformiad sgriwtini.

**4.1.6 Sgriwtini ar draws maes ehangach –** ymagwedd ehangach tuag at sgriwtini gan Aelodau wedi cael ei datblygu ymhellach a'i hatgyfnerthu yn 2023/24 drwy:

i. Gynllunio ymlaen yn effeithiol er mwyn sicrhau bod aliniad rhwng y pynciau a drafodir mewn sesiynau briffio i Aelodau, panelau sgriwtini a chyfarfodydd o'r pwyllgorau sgriwtini llawn
ii. Sicrhau adroddiadau cadarn, lefel uchel ac amserol i'r pwyllgorau sgriwtini gan ddwyn sylw at unrhyw lithriad yn ôl yr angen
iii. Datblygu ystod y pynciau a drafodir mewn sesiynau briffio Aelodau i gefnogi Craffu a sicrhau bod gwybodaeth ar gael i Aelodau ar bynciau strategol a thrawsnewid.

**4.1.7 "Cau'r cylch Sgriwtini" –** drwy sefydlu trefniadau cadarn i:

i. Adrodd ar gynnydd neu uchafu materion o:

- Banelau sgriwtini i'r rhiant bwyllgorau
- Bwyllgorau sgriwtini i'r Pwyllgor Gwaith
- Y byrddau rhaglen corfforaethol i'r pwyllgorau sgriwtini.

ii. Galluogi ac annog hunan-ddadansoddiad ac adlewyrchiad gan Aelodau Sgriwtini er mwyn nodi cryfderau a meysydd ar gyfer datblygiad / ffocws pellach.

**4.1.8 Sgriwtini a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol –** datblygu rôl Sgriwtini drwy:

- Sicrhau bod Aelodau'n canolbwyntio ar y 5 ffordd o weithio wrth lunio cwestiynau[2]
- Weithredu'r templed ar gyfer adroddiadau sgriwtini, sy'n rhoi llesiant cenedlaethau'r dyfodol wrth ei wraidd
- Godi ymwybyddiaeth a rhoi gwybodaeth i Aelodau mewn sesiynau briffio a datblygu
- Adolygu'r cynnydd a wnaed o ran datblygu rôl sgriwtini yn erbyn arfer orau
- Gynnal fframwaith i graffu gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a phartneriaethau allweddol.

**4.1.9 Ymgysylltiad dinasyddion â Sgriwtini –** sicrhau bod llais dinasyddion yn cael ei glywed wrth wneud penderfyniadau lleol ee mae'r Protocol Siarad Cyhoeddus mewn Pwyllgorau Sgriwtini yn rhan allweddol o'n trefniadau llywodraethiant corfforaethol. Darlledir cyfarfodydd y ddau Bwyllgor Sgriwtini yn fyw a chedwir recordiad ar wefan y Cyngor am 12 mis. Rhoddir cyhoeddusrwydd i gyfarfodydd pwyllgorau ar gyfryngau cymdeithasol y Cyngor. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, rydym yn adolygu ein trefniadau ar gyfer hyrwyddo ymgysylltiad gan ddinasyddion a rhanddeiliaid yn ein prosesau Craffu. Bydd canfyddiadau'r adolygiad

[2] Hirdymor, Atal, Integreiddio, Cydweithio, Cynnwys (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015)

hwn yn rhan o gynllun datblygu sgriwtini ac bydd gweithredu'r cynllun yn cael ei fonitro gan y Fforwm Cadeiryddion / Is-gadeiryddion Sgriwtini.

### 4.2 MESUR CANLYNIADAU

Mae sefydlu ac asesu effaith Sgriwtini yn heriol oherwydd nid yw **canlyniadau** gweithgareddau trosolwg a sgriwtini bob amser yn weladwy ac nid oes modd yn aml eu mesur mewn modd systematig. Ymhellach, nid yw'n hawdd mesur gallu'r swyddogaeth sgriwtini i ddylanwadu ar y sawl sy'n gwneud penderfyniadau drwy drafodaeth a dadl. Fodd bynnag, ceir rhai enghreifftiau ble mae mewnbwn sgriwtini wedi ychwanegu gwerth ac / neu wedi dylanwadu ar y modd y mae cynigion wedi cael eu gweithredu gan y Cyngor.

Mae rhagair yr adroddiad yn crynhoi prif uchafbwyntiau gwaith sgriwtini'r Cyngor yn ystod y flwyddyn ddinesig ddiwethaf. Roedd hyn yn cynnwys craffu a rhoi sylwadau ar brif gynlluniau strategol y Cyngor gan gynnwys Cynllun y Cyngor 2023-28. Craffwyd hefyd ar allbynnau a threfniadau monitro perfformiad y Cyngor ynghyd â'r cynigion cyllidebol ar gyfer 2024-25.

Mae'r Awdurdod Lleol wedi comisiynu adolygiad allanol o'i strwythur a'i drefniadau sgriwtini presennol a disgwylir i'r gwaith maes gael ei gwblhau erbyn mis Awst, 2024. Bydd yr adolygiad hwn hefyd yn ystyried:

i. arfer orau a bydd yn meincnodi yn erbyn sefydliadu eraill er mwyn darparu nifer o argymhellion cadarn wrth symud ymlaen
ii. mesur canlyniadau ac effaith sgriwtini Aelodau fel rhan annatod o arfer.

## 5.0 Edrych Ymlaen i 2024/25

Bydd casgliadau'r adolygiad allanol a gomisiynwyd o'r trefniadau sgriwtini presennol yn cynnig sylfaen ar gyfer pennod nesaf y siwrnai ddatblygu leol. Heb ragdybio canlyniad yr adolygiad, rhagwelir y bydd y rhaglen ddatblygu'n cael ei chynhoi o dan y themâu allweddol canlynol:

## MEYSYDD ALLWEDDOL DATBLYGU SGRIWTINI

| Thema | Sut | Canlyniad[3] |
|---|---|---|
| **Gweledigaeth** | • Y manylion i gael eu llywio gan ganfyddiadau'r adolygiad allanol o'r trefniadau sgriwtini | ***Canlyniadau gwell*** |
| **Datblygiad a chefnogaeth i Aelodau** | • Y manylion i gael eu llywio gan ganfyddiadau'r adolygiad allanol o'r trefniadau sgriwtini | ***Penderfyniadau gwell*** |
| **Paneli Sgriwtini** | • Y manylion i gael eu llywio gan ganfyddiadau'r adolygiad allanol o'r trefniadau sgriwtini | ***Penderfyniadau gwell*** |
| **Ymgysylltiad Cyhoeddus yn ein gwaith Craffu** | • Y manylion i gael eu llywio gan ganfyddiadau'r adolygiad allanol o'r trefniadau sgriwtini | ***Ymgysylltu'n well*** |
| **Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** | • Y manylion i gael eu llywio gan ganfyddiadau'r adolygiad allanol o'r trefniadau sgriwtini | ***Canlyniadau gwell*** |
| **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a gwaith partneriaethol** | • Y manylion i gael eu llywio gan ganfyddiadau'r adolygiad allanol o'r trefniadau sgriwtini | ***Ymgysylltu'n well*** |
| **Modelau arloesol o Sgriwtini gan Aelodau** | • Y manylion i gael eu llywio gan ganfyddiadau'r adolygiad allanol o'r trefniadau sgriwtini | ***Penderfyniadau gwell, canlyniadau gwell, ymgysylltu'n well*** |
| **Aliniad a Pherchnogaeth o Raglenni Gwaith Sgriwtini** | • Y manylion i gael eu llywio gan ganfyddiadau'r adolygiad allanol o'r trefniadau sgriwtini | ***Penderfyniadau gwell, canlyniadau gwell*** |
| **Hunanasesiad o'n trefniadau Sgriwtini lleol** | • Y manylion i gael eu llywio gan ganfyddiadau'r adolygiad allanol o'r trefniadau sgriwtini | ***Canlyniadau gwell*** |
| **Codi ymwybyddiaeth/rhannu gwybodaeth** | • Y manylion i gael eu llywio gan ganfyddiadau'r adolygiad allanol o'r trefniadau sgriwtini | ***Penderfyniadau gwell, canlyniadau gwell, ymgysylltu'n well*** |

[3] Canlyniadau a Nodweddion am Drosolwg a Sgriwtini Effeithiol i Lywodraeth Leol – Craffu Da? Cwestiwn Da! Swyddfa Archwilio Cymru 2014

| Thema | Sut | Canlyniad[3] |
|---|---|---|
| **Cau'r Cylch Sgriwtini ac Aliniad gyda'r Byrddau Trawsnewid** | • Y manylion i gael eu llywio gan ganfyddiadau'r adolygiad allanol o'r trefniadau sgriwtini | ***Penderfyniadau gwell, canlyniadau gwell, ymgysylltu'n well*** |
| **Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021** | • Y manylion i gael eu llywio gan ganfyddiadau'r adolygiad allanol o'r trefniadau sgriwtini | ***Penderfyniadau gwell, canlyniadau gwell*** |

## 6.0 CYSYLLTU Â SGRIWTINI

6.1 I ddysgu mwy am sgriwtini ar Ynys Môn neu i wneud unrhyw sylwadau cysylltwch os gwelwch yn dda â:

Yr Uned Sgriwtini,
Cyngor Sir Ynys Môn,
Swyddfeydd y Cyngor,
Llangefni.
Ynys Môn.
LL77 7TW

| | | |
|---|---|---|
| Anwen Davies | Rheolwr Sgriwtini | 07971 167198<br>AnwenDavies@ynysmon.llyw.cymru |

# Adroddiad Blynyddol
# Trosolwg a Sgriwtini: 2023/24

# ATODIADAU



Mae’r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

## ATODIAD 1

# BETH YW TROSOLWG A SGRIWTINI?
# Cyd-destun polisi cenedlaethol

**Cyd-destun cenedlaethol:**

Mae pwyllgorau sgriwtini yn rhan o'r ffordd y mae llywodraeth leol yng Nghymru yn gweithredu. Yn ogystal â sefydlu Pwyllgor Gwaith i wneud penderfyniadau, mae Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i sefydlu un neu ragor o bwyllgorau sgriwtini. Eu rôl pennaf yw dal y rheini sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif, gyrru gwelliant, gweithredu fel llais y gymuned a chwarae rôl wrth ddatblygu ac adolygu polisïau.

Mae'r Ganolfan Llywodraethiant a Chraffu Gyhoeddus (CfGS)[4] yn arddel pedair egwyddor allweddol i gefnogi gwaith sgriwtini effeithiol gan Aelodau:

i. Darparu her "cyfaill beirniadol" i'r rheini sy'n llunio polisïau ac yn gwneud penderfyniadau
ii. Sicrhau y clywir llais a phryderon y cyhoedd a chymunedau
iii. "Llywodraethwyr annibynnol eu meddwl" sy'n arwain y broses sgriwtini ac yn cymryd perchnogaeth ohoni
iv. Yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn gyrru gwelliant mewn gwasanaethau cyhoeddus.

[4] Canllaw Sgriwtini Da, Canolfan Llywodraethiant a Chraffu 2004

**ATODIAD 2**

# CYLCH GORCHWYL AC AELODAETH EIN PWYLLGORAU SGRIWTINI

Mae'r swyddogaeth trosolwg a sgriwtini yng Nghyngor Sir Ynys Môn yn parhau i gael ei chyflawni drwy gyfrwng strwythur sy'n cynnwys dau o riant bwyllgorau sgriwtini – Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio.

## Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol

### Cylch gorchwyl:

- Ffocws gwaith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yw darparu sicrwydd ynghylch cyflawni a darparu'r holl wasanaethau; sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei amcanion corfforaethol a'i amcanion ar gyfer ei wasanaethau (fel yr amlinellwyd yn y Cynllun Corfforaethol, y Gyllideb Flynyddol, y Fframwaith Polisi a Chyllideb, y Fframwaith Rheoli Perfformiad, Polisïau Corfforaethol neu eu cynlluniau a'u polisïau olynol); a chefnogi a gwneud argymhellion ar gyfer gwelliant parhaus.
- Mae aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn cynnal cyfarfodydd paratoi cyn pob pwyllgor er mwyn paratoi a rhoi ffocws i'r drafodaeth yng nghyfarfodydd ffurfiol y pwyllgor. Ystyrir bod hyn yn arfer dda a bwriedir parhau â'r trefniadau hyn yn 2024/25.

### Aelodaeth

- Y Cynghorydd Douglas Massie Fowlie yw cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a chaiff gefnogaeth gan yr Is-gadeirydd sef y Cynghorydd Dyfed Wyn Jones. Mae deg o aelodau'n gwasanaethu ar y pwyllgor[5] gyda darpariaeth ar gyfer 4 aelod cyfetholedig:

[5] Mae aelodaeth cynghorwyr ar y Pwyllgorau Sgriwtini yn adlewyrchu cydbwysedd gwleidyddol y Cyngor

## Aelodaeth Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol

## Aelodau Etholedig

| | Enw | Ward | Parti Gwleidyddol/ Grŵp | | Enw | Ward | Parti Gwleidyddol/ Grŵp |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
|  | Cyng Geraint ap Ifan Bebb | Cefni | Plaid Cymru |  | Cyng Alwen Watkin | Bodowyr | Plaid Cymru |
|  | Cyng Ieuan Williams | Lligwy | Y Grŵp Annibynnol |  | Cyng Arfon Wyn | Bro Aberffraw | Plaid Cymru |
|  | Cyng Dyfed Wyn Jones (Is-Gadeirydd) | Aethwy | Plaid Cymru |  | Cyng Sonia Williams | Aethwy | Plaid Cymru |
|  | Cyng Jackie Lewis | Talybolion | Plaid Cymru |  | Cyng Keith Roberts | Ynys Gybi | Llafur Cymru |



Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
|  | Cyng Llio A Owen | Talybolion | Plaid Cymru |  | Cyng Robert Llewelyn Jones (Chair) | Parc a'r Mynydd | Annibynnwyr Môn |
|  | Cyng Aled M. Jones | Twrcelyn | Annibynnwyr Môn |  | Cyng Douglas Fowlie (Cadeir-ydd) | Crigyll | Annibynnwyr Môn |

## Aelodau Cyfetholedig



Mr John Tierney
Cynrychioli: Yr Eglwys Babyddol Rufeinig



Mrs Wenda Owen
Cynrychioli: Yr Eglwys yng Nghymru



Mrs Gillian Thompson
Cynrychioli: Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd

Sedd Wag: Rhiant Llywodraethwyr – Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY

## Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio

**Cylch gorchwyl:**

- Prif ffocws y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio yw sicrhau yr hyrwyddir buddiannau Dinasyddion Ynys Môn ac y gwneir y defnydd gorau o adnoddau'r Cyngor, yn unol â blaenoriaethau'r Cyngor, sy'n dangos gwerth ychwanegol yn sgil gweithio gyda phartneriaid. Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor yn cynnwys trefniadau rhanbarthol a chenedlaethol yn ogystal â threfniadau lleol.
- Y Pwyllgor hefyd yw'r Pwyllgor Trosedd ac Anhrefn enwebedig sy'n delio â materion trosedd ac anhrefn, fel sy'n ofynnol o dan Adrannau 19 a 20 o Ddeddf yr Heddlu a Chyfiawnder 2006. Hwn yw'r Pwyllgor dynodedig hefyd ar gyfer craffu gwaith Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ynys Môn a Gwynedd.
- Mae'r Pwyllgor wedi cyflwyno'r arfer o gynnal cyfarfodydd briffio gydag aelodau cyn pob cyfarfod ffurfiol o'r pwyllgor sgriwtini. Caiff hyn ei weld fel arfer da a bwriedir parhau â'r trefniadau hyn yn 2023/24.

**Aelodaeth:**

- Y Cynghorydd Dylan Rees yw Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio a chaiff gefnogaeth gan yr Is-gadeirydd sef y Cynghorydd Gwilym Owen Jones. Mae deg o aelodau hefyd yn gwasanaethu ar y pwyllgor hwn gyda darpariaeth ar gyfer 4 aelod cyfetholedig:

**Aelodaeth Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio**
**Aelodau Etholedig**

| | Enw | Ward | Parti Gwleidyddol/ Grŵp |
|---|---|---|---|
|  | Cyng Gwilym O Jones (Is-Gadeirydd) | Bro'r Llynnoedd | Grŵp Annibynnol |
|  | Cyng Non Dafydd | Canolbarth Môn | Plaid Cymru |
|  | Cyng Euryn Morris | Lligwy | Plaid Cymru |
|  | Cyng Sonia Williams | Aethwy | Plaid Cymru |
|  | Cyng Ken Taylor | Bro'r Llynnoedd | Plaid Cymru |

| | Enw | Ward | Parti Gwleidyddol/ Grŵp |
|---|---|---|---|
|  | Cyng Margaret Roberts | Lligwy | Plaid Cymru |
|  | Cyng Paul Ellis | Canolbarth Môn | Annibynnwyr Môn |
|  | Cyng Jeff Evans | Tref Cybi | Annibynnwyr Môn |
|  | Cyng Derek Owen | Twrcelyn | Annibynnwyr Môn |
|  | Cyng Pip O 'Neill | Tref Cybi | Llafur Cymru |


Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

## Aelodau Cyfetholedig



Mr John Tierney
Cynrychioli: Yr Eglwys Babyddol Rufeinig



Mrs Wenda Owen
Cynrychioli: Yr Eglwys yng Nghymru



Mrs Gillian Thompson
Cynrychioli: Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd

Sedd Wag: Rhiant Llywodraethwyr – Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY


Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

Gall ein pwyllgorau sgriwtini wneud eu gwaith mewn un o’r ffyrdd canlynol:

- Ystyried y pwnc yn ystod cyfarfod ffurfiol
- Ystyried y pwnc yn fanylach drwy sefydlu panel canlyniad sgriwtini NEU
- Cynnal sesiynau anffurfiol ar faes polisi penodol.

Unwaith eto yn ystod 2023/24, roedd y pwyllgorau sgriwtini yn ymwybodol o’r angen i geisio canolbwyntio eu gwaith ar ganlyniadau ac o fewn fframwaith Archwilio Cymru o nodweddion a chanlyniadau sgriwtini a throsolwg effeithiol mewn llywodraeth leol[6]:

- Canlyniadau gwell
- Penderfyniadau gwell
- Ymgysylltu‘n well

**Galw penderfyniadau i mewn:** gall pwyllgorau sgriwtini “alw i mewn” penderfyniad a wnaed gan y Pwyllgor Gwaith, Aelod Portffolio neu swyddog sydd wedi cael pwerau dirprwyol gan y Pwyllgor Gwaith i wneud penderfyniad penodol. Nid yw’r pwyllgorau sgriwtini ond yn galw penderfyniad i mewn pan mae rheswm da dros wneud hynny (drwy Brawf o Arwyddocâd), ac yn ystod 2023/24 ni chafodd hyn ei wneud.

[6] Craffu Da? Cwestiwn Da! Swyddfa Archwilio Cymru, 2014

# ATODIAD 3

## Ein Gweledigaeth ar gyfer sgriwtini effeithiol yng Nghyngor Sir Ynys Môn

### Gweledigaeth

Mae Sgriwtini ar Ynys Môn yn anelu at sicrhau gwell canlyniadau ar gyfer dinasyddion a chymunedau a hefyd ychwanegu at effeithiolrwydd y Cyngor drwy helpu i wneud gwasanaethau cyhoeddus yn fwy tryloyw, cynhwysol, atebol a chost effeithiol.

**Egwyddorion Arweiniol ar gyfer Sgriwtini ar Ynys Môn**

- Mae sgriwtini'n creu awyrgylch o gyd-ymddiriedaeth, cydweithio a rhannu cyfrifoldebau er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer cymunedau lleol ar Ynys Môn
- Mae Aelodau Sgriwtini yn anwleidyddol yn y modd y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cefnogi a herio
- Mae gweithgaredd Sgriwtini'n ehangu yn uniongyrchol y sylfaen dystiolaeth ar gael ar gyfer gwneud penderfyniadau a chyflwyno rhaglenni trawsnewid oherwydd mae'n rhoi syniad o'r modd y mae cymunedau lleol yn debygol o deimlo am y cynigion
- Mae Aelodau Sgriwtini yn helpu i sicrhau y cymerir ymagwedd strategol, tymor hir pan mae bwriad i ail ystyried strategaethau sylweddol gan wasanaethau a hynny drwy gynnig her adeiladol wrth roi prawf ar ragdybiaethau, edrych ar risgiau ac herio sut y mae adnoddau'n cael eu blaenoriaethu.

**Ein Gwerthoedd**

**Sgriwtini ar Ynys Môn .....**

- Mae'n edrych ymlaen ac at allan ac yn rhagweithiol (yn hytrach na mewnol ac ymatebol)
- Rôl wedi'i diffinio'n glir ac sy'n cael ei gwerthfawrogi yn nhrefniadau llywodraethiant a gwella'r Cyngor
- Anwleidyddol ac yn cynnwys amrediad eang o ffynonellau tystiolaeth a safbwyntiau gan gynnwys rhai gan bartneriaid strategol, rheoleiddwyr a'r cyhoedd
- Arwain gan Aelodau Etholedig sydd â'r cyfleon hyfforddi a datblygu maent eu hangen i ymgymryd â'u rôl yn effeithiol

- Derbyn cefnogaeth effeithiol gan Dîm Arwain y Cyngor sy'n sicrhau bod y wybodaeth a ddarperir ar gyfer Sgriwtini o ansawdd uchel ac ar gael yn amserol a chyson

- Cymryd i ystyriaeth bryderon a fynegir ar lefel ward mewn modd nad yw'n blwyfol wrth reoli ei raglen waith

- Cael ei gynllunio'n dda, ei gadeirio'n effeithiol ac mae'n gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael iddynt

- Cael ei gydnabod gan y Pwyllgor Gwaith a'r Tîm Arwain fel dull pwysig yn y Cyngor ar gyfer ymgysylltiad cymunedol a dinasyddion yn ymwneud â llywodraethiant.

- Adeiladu ymddiriedaeth a pherthnasau cadarnhaol gydag amrediad eang o randdeiliaid mewnol ac allanol.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | Y CYNGOR LLAWN |
| **Dyddiad:** | 21 MAI 2024 |
| **Pwnc:** | Cynllun Strategol Rheoli Asedau 2024 – 2029 |
| **Aelod Portffolio:** | Dafydd Rhys Thomas – Aelod Portffolio – Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo |
| **Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:** | Huw Percy<br>Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Ffôn:<br>E-bost: | Meilir Hughes, Prif Swyddog Eiddo ac Asedau<br><br>meilirhughes@ynysmon.llyw.cymru |
| **Aelodau Lleol:** | Amherthnasol |

## A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau

**Argymhelliad: Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith argymell y Cynllun Strategol Rheoli Asedau 2024-2029 i'w gymeradwyo'n ffurfiol gan y Cyngor llawn.**

Mae gwell rheolaeth asedau yn darparu gwell asedau, yn y lleoliad cywir, ac yn gyrru effeithlonrwydd ac yn lleihau gwastraff. Maes o law, gall yr asedau ddarparu'r gefnogaeth orau bosib i gymunedau lleol, a gwella'r ffordd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu darparu i gynnwys eu gwneud yn fwy hygyrch.

Mae'r Cynllun Strategol Rheoli Asedau 2024-2029 yn adeiladu ar y rhaglenni gwaith y blynyddoedd diwethaf sydd wedi llywio blaenoriaethau buddsodd a penderfyniadau rheolaeth portffolio.
Mae'n gosod y cyfeiriad ar gyfer y pum mlynedd nesaf.

Pwrpas y Cynllun Strategol Rheoli Asedau yw sicrhau bod gan y Cyngor bortffolio asedau ariannol ac amgylcheddol gynaliadwy, wedi'i resymoli i fod yn addas i bwrpas ac yn ddiogel er mwyn darparu gwasanaethau.

Er mwyn cyflawni'r Pwrpas yma, byddwn yn cyfarch y Meysydd Blaenoriaeth Allweddol canlynol;

1. Addasrwydd – portffolio llai, gwell cyflwr, diogel a hygyrch
    - Portffolio wedi'i resymoli
    - Yr eiddo cywir yn y lleoliadau cywir
    - Eiddo sy'n hygyrch ac yn ddiogel i bawb
    - Eiddo mewn cyflwr da (gan gydnabod cyfyngiadau cyllidebol)
2. Cynaliadwyedd – lleihau ôl-troed carbon, gwella effeithiolrwydd ariannol
    - Lleihau ein ôl-troed carbon
    - Cynaliadwy'n ariannol
3. Cydweithio - meddylfryd rhesymegol i gyflawni amcanion economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol
    - Cynllunio a rheoli eiddo fel adnodd corfforaethol er mwyn gwireddu gweledigaeth y Cyngor a chyflawni amcanion strategol.
4. Gyrru gan ddata – cynllunio rhagweithiol, eglurder a thryloywder

- Cynllunio rhagweithiol gan ddefnyddio data
- Eglurder a thryloywder

Mae cyswllt rhwng y Cynllun Strategol Rheoli Asedau a nifer o gynlluniau a strategaethau eraill, gan gynnwys: -

- Cynllun y Cyngor
- Y Strategaeth Gyfalaf
- Y Strategaeth Lleihau Carbon Sero Net;
- Y Strategaeth Gwella Hamdden;
- Y Strategaeth Moderneiddio Cymunedau Dysgu a Datblygu'r Gymraeg.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Ni ystyriwyd unrhyw opsiynau eraill gan fod swyddogion o'r farn fod llunio a mabwysiadu Cynllun Strategol Rheoli Asedau yn hanfodol er mwyn gwireddu Cynllun y Cyngor. Mae CIPFA a RICS hefyd yn ystyried bod Cynllun Strategol Rheoli Asedau yn ddogfen allweddol.

**C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor, gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith ystyried y Cynllun Strategol Rheoli Asedau a'i argymell i'r Cyngor llawn ei gymeradwyo.

| | | |
|---|---|---|
| **CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?** | | |
| Gofynnir i'r Cyngor llawn gymeradwyo'r Cynllun Strategol maes o law. | | |
| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** | | |
| Nid oes unrhyw oblygiadau uniongyrchol ar y gyllideb ar hyn o bryd. Efallai y gofynnir am benderfyniadau pellach maes o law. | | |
| **Dd – Asesu'r effaith bosib (os yw'n berthnasol):** | | |
| **1** | Sut mae'r penderfyniad hwn yn cael effaith ar anghenion hir dymor yr Ynys? | Mae'r Cynllun Strategol hwn yn nodi'r cyfeiriad strategol a'r egwyddorion fydd yn llywio ein penderfyniadau a phrosesau yn ymwneud â Rheoli Asedau ar gyfer y cyfnod hyd at 2029, ynghyd â phenderfyniadau i gyflawni'r amcanion tymor hir a nodir yng Nghynllun y Cyngor. |
| **2** | A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaeth ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut? | Mae'r Cynllun Strategol yn nodi cyfeiriad strategol ac egwyddorion i wella cynaliadwyedd ariannol portffolio eiddo'r Cyngor. |
| **3** | A ydym wedi bod yn gweithio ar y cyd â sefydliadau eraill i wneud y penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod i bwy. | Mae'r Cynllun Strategol yn nodi cyfeiriad strategol ac egwyddorion i adeiladu ar a gwella'r cydweithio presennol rhwng Gwasanaethau'r Cyngor a gyda phartneriaid allanol.<br><br>Yn y dyfodol, rhagwelir y bydd y Cyngor yn cydweithio ar brosiectau ac adeiladau penodol gyda nifer o randdeiliaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, cyrff cyhoeddus eraill a chymunedau. |
| **4** | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai y mae'r penderfyniad yn effeithio'n uniongyrchol arnynt? Eglurwch sut. | Na, dogfen strategol yw hon ac nid yw'n cyfeirio at eiddo a chymunedau unigol.<br><br>Yn y dyfodol, rhagwelir y bydd y Cyngor yn ymwneud yn uniongyrchol â chymunedau mewn perthynas â phrosiectau ac adeiladau penodol. |
| **5** | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Mae'r Cynllun Strategol yn nodi cyfeiriad strategol ac egwyddorion fydd yn gwella hygyrchedd a diogelwch adeiladau i bawb.<br><br>Yn y dyfodol bydd Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn cael eu cwblhau wrth ystyried prosiectau ac adeiladau penodol. |
| **6** | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar y rhai sy'n profi | Mae'r Cynllun Strategol yn nodi cyfeiriad strategol ac egwyddorion i adeiladu ar a gwella'r cydweithio presennol rhwng |

| | | |
|---|---|---|
| | anfantais economaidd-gymdeithasol. | Gwasanaethau'r Cyngor a gyda phartneriaid allanol i ddarparu gwasanaethau'n effeithlon.<br><br>Yn y dyfodol, bydd Asesiadau Effaith yn cael eu cwblhau wrth ystyried prosiectau ac adeiladau penodol. |
| **7** | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Mae'r Cynllun Strategol yn nodi cyfeiriad strategol ac egwyddorion i wella cynaliadwyedd ariannol portffolio eiddo'r Cyngor.<br>Bydd gwella cynaliadwyedd yn helpu i gynnal cymunedau lleol yn y tymor hir, a bydd hynny'n cael effaith fuddiol ar y Gymraeg. |
| **E -** | **Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?** | **Beth oedd eu sylwadau?** |
| **1** | **Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth (TA)** (gorfodol) | Ymgorfforwyd sylwadau'r TA yn yr adroddiad. |
| **2** | **Cyllid / Adran 151** (gorfodol) | Ymgorfforwyd sylwadau'r Swyddog Adran 151 yn yr adroddiad. |
| **3** | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (gorfodol) | Mae'r Swyddog Monitro'n Aelod o'r TA ac mae unrhyw sylwadau wedi cael eu hystyried pan drafodwyd yr adroddiad hwn yn y TA. |
| **4** | **Adnoddau Dynol (AD)** | Dim effaith uniongyrchol ar staff. |
| **5** | **Eiddo** | Amherthnasol. Yr Adran Eiddo sydd wedi llunio'r Strategaeth. |
| **6** | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu** | Amherthnasol |
| **7** | **Sgriwtini** | I'w gadarnhau |
| **8** | **Aelodau Lleol** | Mae'r cynigion yn berthnasol i bob Aelod. |
| **9** | **Unrhyw gyrff allanol / arall** | Amherthnasol |
| **F – Atodiadau:** | | |
| Atodiad 1 – Cynllun Strategol Rheoli Asedau 2024 – 2029 | | |
| **FF – Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth ychwanegol):** | | |
| Cynllun y Cyngor 2023 – 2028 | | |

Ynys Môn
THE ISLE OF Anglesey

Tudalen 61



# Cynllun Strategol Rheoli Asedau

# 2024 – 2029

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn y Gymraeg / This document is also available in Welsh.

Dyma Gynllun Strategol Rheoli Asedau Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer 2024 hyd at 2029. Mae ar gael ar ein gwefan:

www.ynysmon.llyw.cymru

Os ydych angen y ddogfen hon mewn fformat a/neu iaith arall, neu mae gennych gwestiynau am ei chynnwys, cysylltwch â:

Cyngor Sir Ynys Môn

Swyddfeydd y Cyngor

Llangefni

LL77 7TW

Ffôn:

E-bost:

Rydym yn croesawu galwadau a gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd oedi mewn ymateb wrth ddefnyddio'r Gymraeg.



This is the Isle of Anglesey County Council's Asset Management Strategic Plan for 2024 to 2029. It is available on our website:

www.anglesey.gov.wales

If you require this publication in another format and/or language, or have any questions about its contents, please contact:

Isle of Anglesey County Council
Council Offices
Llangefni
LL77 7TW

Tel:
Email:

We welcome calls and correspondence in Welsh and English. Using Welsh will not lead to a delay in responding.

# Rhagair



Cynghorydd Llinos Medi
Arweinydd y Cyngor



Dylan Williams
Prif Weithredwr



Mae'r Cyngor yn wynebu heriau rheolaeth asedau sylweddol ar hyn o bryd;

- mae ein asedau'n heneiddio
- mae eu cyflwr yn dirywio
- baich cydymffurfiaeth deddfwriaethol yn dwysau
- ymrwymiad i ddod yn gyngor net sero
- cynydd disgwyliadau ymhlith y cyhoedd
- diffyg cyllid cyfalaf

ac mae'r rhain i gyd yn golygu bod y dewisiadau sydd ar gael i'r Cyngor, a'r penderfyniadau y mae'n rhaid eu gwneud, yn heriol iawn.

Mae'r buddsoddiad cyfalaf angenrheidiol i foderneiddio a diweddaru asedau presennol ac i gyflawni ei amcanion strategol dros y 5 mlynedd nesaf yn fwy na £300m. Er bod y Cyngor yn ymfalchïo yn ei asedau, mae'r bwlch rhwng uchelgais a'r gallu i ddarparu (oherwydd cynnydd mewn costau a phwysau ar gyllideb) yn tyfu.

Mae buddsoddi yn asedau eiddo'r Cyngor yn hanfodol o safbwynt cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a chymunedol. Yn yr hinsawdd ariannol bresennol, mae'n bwysig fod penderfyniadau'n seiliedig ar dystiolaeth, yn mynd i'r afael â'r risgiau tymor byr a hir mae'r Cyngor yn eu hwynebu ac yn fforddiadwy. Mae hyn yn heriol iawn.

Mae'r Cynllun Strategol Rheoli Asedau'n cael ei yrru gan Gynllun Cyngor 2023-2028 a'r Cynllun Strategol Cyfalaf 2024-2029. Gyda'i gilydd, bydd y cynlluniau'n sicrhau bod penderfyniadau ynghylch rheoli asedau'n cael eu hystyried mewn ffordd gynlluniedig sy'n galluogi'r Cyngor i gyflawni ei amcanion strategol allweddol yn ogystal â sicrhau hyfywedd tymor hir y Cyngor.

# Diben y Cynllun Strategol Rheoli Asedau



Gweledigaeth y Cyngor ar gyfer 2023-2028 yw creu Ynys Môn sy'n iach a llewyrchus lle gall pobl ffynnu.

Pwrpas y Cynllun Strategol Rheoli Asedau yw sicrhau bod gan y Cyngor bortffolio asedau amgylcheddol ac ariannol gynaliadwy, sy'n addas at bwrpas ac yn ddiogel er mwyn darparu gwasanaethau.

Mae cyflwr, diogelwch, hygyrchedd addas a chynaliadwyedd Asedau Gweithredol (ysgolion, canolfannau hamdden, cartrefi gofal, toiledau cyhoeddus ac ati) yn cael effaith uniongyrchol ar ddarpariaeth gwasanaethau rheng-flaen i gymunedau'r Ynys.

Mae'r ffordd y rheolir Asedau Buddsoddi (neu Anweithredol) (Ystadau Diwydiannol, Mân-ddaliadau ac eiddo gosod arall) yn cael effaith ar yr incwm a gynhyrchir a'r costau a wynebir, sydd yn eu tro, yn cael effaith uniongyrchol ar sefyllfa ariannol y Cyngor.

Oherwydd hyn, mae'n bwysig fod yr asedau'n hyn yn cael eu rheoli mewn ffordd ragweithiol ac effeithlon.

Bydd y ddogfen strategol lefel-uchel hon yn weithredol am bum mlynedd a bydd yn darparu'r fframwaith ar gyfer sicrhau bod ymagwedd strategol, corfforaethol a chyd-gysylltiedig i waith rheoli asedau, yn unol â Chynllun y Cyngor.

Rhaid nodi, er bod diben y Cynllun Strategol hwn a'r egwyddorion ynghlwm ag o yn aeddfed, mae'r wybodaeth sydd gennym ynghylch a'n portffolio yn anghyflawn. Felly, mae casglu a phrosesu gwybodaeth yn ffrwd gwaith allweddol sydd eisoes ar y gweill.

# Asedau'r Cyngor

Mae gan y Cyngor bortffolio o asedau amrywiol.

Mae'r asedau hyn yn cyfrannu at ddarparu gwasanaethau; fodd bynnag, mae angen refeniw a chyllid cyfalaf sylweddol i'w rhedeg a'u cynnal a chadw.

Mae'r gwaith o reoli'r asedau hyn yn cael ei bennu gan rwymedigaethau deddfwriaethol a strategol.

| Math o Ased | Nifer | Math o Ased | Nifer | Math o Ased | Nifer |
|---|---|---|---|---|---|
| Ysgolion Cynradd | 39 | Clybiau Ieuenctid | 1 | Cerbydau * | 200 |
| Ysgolion Uwchradd | 5 | Unedau Diwydiannol | 68 | Tai Cymdeithasol* | 3,953 |
| Canolfan Addysg y Bont | 1 | Safleoedd Manwerthu | 20 | Priffyrdd* | 1,188 km |
| Swyddfeydd | 2 | Canolfannau Cymunedol | 8 | Llwybrau Troed* | 661 km |
| Amgueddfeydd ac Archifau | 2 | Sefydliadau Addysgol Eraill | 3 | Llwybrau Beicio* | 211 km |
| Llyfrgelloedd | 7 | Eiddo Amrywiol | 8 | Strwythurau* | 539 |
| Cartrefi Gofal Preswyl | 5 | Safleoedd Morwrol | 7 | Goleuadau* | 20,014 lights |
| Cartrefi Gofal Plant (Cartrefi Clyd) | 3 | Angorau | 468 | Systemau Draenio* | 28,064 |
| Canolfannau Gofal Dydd | 4 | Parciau a Safleoedd Agored | 47 | Arwyddion heb Oleuadau* | 7,629 |
| Canolfannau Hamdden | 4 | | | Asedau Eraill ar y Briffordd* | 9,239 |
| Cyfleustodau Cyhoeddus | 22 | | | | |
| Mân-ddaliadau (5,845 acer) | 75 | | | | |

* Tu hwnt i gwmpas y Cynllun Strategol Rheoli Asedau

# Cynllun y Cyngor 2023-2028 Amcanion Strategol

Cynllun y Cyngor yw'r brif ddogfen sy'n ganolbwynt i'r penderfyniadau a wneir ar bob lefel; darparu fframwaith i gynllunio a gyrru blaenoriaethau yn eu blaen; siapio gwariant blynyddol; monitor perfformiad a chynnydd.
Wrth wraidd y cynllun mae ein dyhead i weithio gyda phreswylwyr, cymunedau a phartneriaid ar Ynys Môn i sicrhau'r gwasanaethau gorau posibl, gwella ansawdd bywyd ar gyfer pawb a chreu cyfleoedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae ei chwe phrif amcan yn adlewyrchu'r prif feysydd y dylai'r Cyngor ganolbwyntio arnynt.

**Gweledigaeth Cynllun y Cyngor yw:**



'Creu Ynys Môn sy'n iach a llewyrchus lle gall pobl ffynnu.'

### Yr iaith Gymraeg

Cynyddu cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r iaith.

### Gofal cymdeithasol a Lles

Darparu'r gefnogaeth gywir ar yr amser iawn.

### Addysg

Sicrhau darpariaeth effeithiol ar gyfer heddiw ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

### Tai

Sicrhau bod gan bawb yr hawl i alw rhywle'n gartref.

### Economi

Hyrwyddo cyfleoedd i ddatblygu economi'r Ynys.

### Newid Hinsawdd

Ymateb i'r argyfwng, mynd i'r afael â newid a gweithio tuag at ddod yn sefydliad sero net erbyn 2030.

Cynllun y Cyngor 2023 - 2028 (llyw.cymru)

# Cynllun y Cyngor 2023-2028 -Gwerthoedd

Mae gwerthoedd craidd y sefydliad yn sylfaen i Gynllun y Cyngor 2023-28, ac maent yn cael eu defnyddio i ddatblygu ac arwain gweledigaeth, cynlluniau strategol a gwasanaethau.



## Parch

Rydym yn barchus ac yn ystyriol tuag at eraill waeth beth yw ein gwahaniaethau.

## Cydweithio

Rydym yn gweithio fel tîm, gyda'n cymunedau a'n partneriaid i gyflawni'r canlyniadau gorau i bobl Ynys Môn.

## Gonestrwydd

Rydym yn ymrwymedig i safonnau uchel o ran ymddygiad ac uniondeb.

## Hyrwyddo'r Cyngor a'r Ynys

Rydym yn creu ymdeimlad o falchder wrth weithio i'r Cyngor ac yn cyflwyno delwedd gadarnhaol i'r Cyngor a'r Ynys.


[Cynllun y Cyngor 2023 - 2028 (llyw.cymru)]

# Cylch strategol

Mae'r cylch strategol yn nodi'r cynlluniau sydd ar waith i sicrhau ein bod yn gallu cyflawni ein blaenoriaethau a'n hamcanion.

Mae'r cynllun hwn yn gynllun strategol allweddol sy'n cyd-fynd â Chynllun y Cyngor ac yn cyfrannu at gyflawni'r amcanion a'r weledigaeth strategol.

Tudalen 68




[Council Plan 2023 to 2028 (gov.wales)]

# Meysydd Blaenoriaeth Allweddol

Sicrhau bod gan y Cyngor bortffolio o asedau sy'n gynaliadwy'n amgylcheddol ac ariannol, sy'n addas at ei ddiben ac yn ddiogel er mwyn gallu darparu gwasanaethau.

1. Addasrwydd
   - Portffolio wedi'i resymoli
   - Eiddo cywir yn y lleoliadau cywir
   - Eiddo sy'n hygyrch ac yn ddiogel i bawb
   - Eiddo mewn cyflwr da (gan gydnabod cyfyngiadau cyllidebol)

2. Cynaliadwyedd
   - Lleihau ein ôl-troed carbon
   - Cynaliadwy'n ariannol

3. Cydweithio
   - Cynllunio a rheoli eiddo fel adnodd corfforaethol er mwyn gwireddu gweledigaeth y Cyngor a chyflawni amcanion strategol.

4. Gyrru gan ddata
   - Cynllunio'n weithredol gan ddefnyddio data
   - Eglurder a thryloywder

# Addasrwydd – portffolio llai sydd mewn gwell cyflwr, yn fwy diogel a hygyrch

## Pam bod hyn yn bwysig?

Mae gennym bortffolio hanesyddol sylweddol sydd ddim wedi datblygu ar yr un gyfradd â'n cymunedau a'u hanghenion. Mae'n rhaid i ni sicrhau bod ein portffolio eiddo yn cyd-fynd ag anghenion ein cymunedau.

Mae ein hôl-groniad gwaith cynnal a chadw yn cynyddu, ac mae cyflwr ein hadeiladau yn dirywio.

Drwy leihau main ein portffolio, gallwn ganolbwyntio ein cyllidebau a gwella cyflwr ein heiddo. Golyga hyn y bydd gennym lai* o eiddo, ond byddant mewn gwell cyflwr.

Drwy ddarparu eiddo sy'n addas i bwrpas, yn y lleoliadau cywir, gallwn fodloni anghenion presennol ein defnyddwyr a'n Gwasanaethau presennol, a chynllunio yn fwy effeithiol ar gyfer y dyfodol.

Drwy ddarparu eiddo diogel a hygyrch, gallwn warchod ein hunain yn erbyn risgiau iechyd a diogelwch ac atebolrwydd.

## Beth ydyn ni am wneud?

- Cadw asedau â phwrpas penodol yn unig, ac anelu i wella cynaliadwyedd ariannol, economaidd-gymdeithasol ac amgylcheddol ar draws ein portffolio.
- Rhagdybio o blaid gwaredu eiddo os nad oes ei angen ar wasanaethau.
- Herio'r defnydd presennol o asedau drwy adnabod cyfleoedd cyd-leoli, gan gynnwys gyda phartneriaid, a all olygu rhesymoli a chael gwared ar eiddo pan fo'n briodol.
- Cynnal asedau fel eu bod mewn cyflwr da ac yn cydymffurfio'n gyfreithiol, er mwyn cynnal diogelwch ac addasrwydd.
- Datblygu trefniadau casglu gwybodaeth a rheoli er mwyn tystiolaethu cyflawniadau.

## Sut?

- Herio ein hasedau o fewn rhaglen dreigl barhaus.
- Adnabod eiddo y dylid eu cadw / buddsoddi ynddynt, a'r rheiny sydd yn weddill i anghenion ac y dylid cael gwared arnynt.
- Adolygu'r portffolio a chynllunio darpariaeth gwasanaeth yn unol â gofynion gwasanaeth ac ardaloedd daearyddol.
- Ffurfioli trefniadau diogelwch eiddo yn a sicrhau bod y gwiriadau priodol yn cael eu cwblhau o fewn amser priodol.
- Sefydlu rhaglen dreigl barhaus ar gyfer cynnal archwiliadau manwl ar gyflwr ysgolion ac adeiladau eraill.

# Cynaliadwyedd –lleihau ôl-troed carbon, gwella effeithlonrwydd ariannol

## Pam bod hyn yn bwysig?

Mae ein portffolio eiddo yn un o'n prif allyrwyr carbon ac mae'n rhaid i ni leihau ein ôl-troed carbon os ydynt am gyflawni ein Cynllun Sero Net.
Mae grantiau sylweddol ar gael ar gyfer datgarboneiddio, ac os gallwn baratoi a blaenoriaethu'n gywir, maent yn cynnig ffrydiau ariannu i'n galluogi i uwchraddio, gwella a lleihau'r baich o gynnal a chadw ein hadeiladau tra'n cyflawni'r brif amacn o ddatgarboneiddio'n portffolio.

Mae'r hinsawdd ariannol bresennol yn heriol, ac mae oblygiadau ariannol ein portffolio yn sylweddol. Mae'r portffolio eiddo corfforaethol yn cynrychioli cyfran sylweddol o werth asedau'r Cyngor, atebolrwydd, refeniw (rhent) a gwariant (cynnal a chadw, ynni, trethu ac ati), a gall y portffolio hwn gael effaith sylweddol ar gapasiti ariannol y Cyngor.



## Beth ydyn ni am wneud?

- Gosod gwaelodlin carbon ar gyfer ein hadeiladau.
- Lleihau allyriadau carbon asedau eiddo.
- Bod yn uchelgeisiol a dewr wrth ystyried cyfleoedd i ddatgarboneiddio ein stoc wrth dderbyn bod risgiau ynghlwm â thechnolegau newydd.
- Bod yn agored i gyfleoedd i ariannu'r gwaith o ddatgarboneiddio a chynlluniau cynhyrchu ynni.
- Annog enillion bioamrywiaeth wrth wneud penderfyniadau ynghylch eiddo, a gwneud buddsoddiadau doeth a phwyllog.
- Lleihau costau gweithredol drwy ddefnyddio adeiladau'n fwy effeithlon.
- Sicrhau'r buddion ariannol gorau tra'n cydnabod buddion economaidd a chymdeithasol.
- Manteisio ar gyllid allanol.

## Sut?

- Datblygu llwybr ar gyfer y daith tuag at net sero ar gyfer portffolio eiddo'r cyngor.
- Sefydlu safonau dylunio i'w dilyn wrth brynu neu adnewyddu asedau er mwyn sicrhau effeithlonrwydd carbon a hyblygrwydd gofod ar gyfer y dyfodol.
- Datblygu prosesau monitro perfformiad a rheoli ynni'n effeithlon.
- Sefydlu trefniadau casglu dyled ac anfonebu clir a thryloyw.
- Adolygu polisïau gwaredu eiddo gan ragdybio o blaid sicrhau'r pris uchaf.
- Edrych ar yr holl gyfleoedd ariannu fel y nodir yn y Strategaeth Cyfalaf.

# Cydweithio – meddwl fel un er mwyn darparu amcanion economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol

## Pam bod hyn yn bwysig?

Mae'n hanfodol fod penderfyniadau ynghylch eiddo yn cael eu gwneud gyda ystyriaeth ar gyfer, ac yng nghyd-destun, effeithiau economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol ar ein cymunedau.

Mae'r portffolio eiddo yn ased a ddeilir gyda'r nod o gyflawni gweledigaeth Cynllun y Cyngor o greu Ynys Môn iach a llewyrchus lle gall pobl ffynnu, a chyflwyno amrywiaeth o wasanaethau i gefnogi'r weledigaeth honno.

## Beth ydyn ni am wneud?

- Gweithio gyda'n gilydd er mwyn cynllunio a rheoli eiddo fel adnodd corfforaethol er mwyn cyflawni gweledigaeth ac amcanion strategol y cyngor.
- Bod yn agored i gyfleoedd i ddefnyddio ein portffolio'n arloesol er mwyn cefnogi adfywiad economaidd a chyflawni amcanion y Cynllun Tai.

## Sut?

- Datblygu cynnig ar gyfer Model Landlord Corfforaethol i'w ystyried gan randdeiliaid.
- Sefydlu safbwynt ar weithio mewn partneriaeth gyda cymunedau'r Ynys a gwasanaethau cyhoeddus eraill – trwy raglen *Ystadau Cymru*.

# Gyrru gan Ddata – cynllunio rhagweithiol, eglurder a thryloywder

## Pam bod hyn yn bwysig?

Mae penderfyniadau sy'n ymwneud ag eiddo yn bwysig, yn anodd eu dadwneud ac yn gallu denu llawer o ddiddordeb cyhoeddus. Mae'n hanfodol bod gweithdrefnau a pholisïau yn glir ac yn dryloyw.

Nid yw barn bob amser yn sail ddigonol ar gyfer penderfyniadau ble mae adnoddau'n gyfyngedig a'r penderfyniadau yn rhai anodd.

Mae angen i ni allu cynllunio ein gwaith a'n rhaglenni buddsoddi ar gyfer y tymor canolig a hir er mwyn sefydlu cyfeiriad hirdymor.

## Beth ydyn ni am wneud?


- Datblygu trefniadau casglu a rheoli data i ddarparu tystiolaeth ar gyfer, ac arwain penderfyniadau.
- Cynllunio ar gyfer y tymor hir er gwaethaf bylchau mewn gwybodaeth ac ansicrwydd ynghylch adnoddau.
- Sicrhau eglurder ynghylch yr hyn sydd angen ei wneud, yr adnoddau sydd eu hangen ac unrhyw rwystrau.
- Gwneud penderfyniadau ar ôl gwerthuso'r opsiynau gyda rhesymu clir wedi'i ddogfennu yn unol ag arfer da cydnabyddedig.

## Sut?

- Symud i feddalwedd rheoli asedau CPM.
- Datblygu rhaglenni cyflawn ar gyfer casglu, gwirio a chynnal data.
- Sefydlu dangosyddion perfformiad allweddol (KPIs) a mesurau addas ar gyfer eu rheoli.
- Datblygu cynlluniau ar gyfer ymgymeryd a gwaith wedi ei flaenoriaethu cyn adnabod cyllid fel ein bod yn barod i ymateb i gyfleoedd grant.
- Adolygu neu ddatblygu polisïau a threfniadau yn ôl yr angen.
- Sefydlu trefniadau addas ar gyfer cyhoeddi gwybodaeth.

# Risgiau wrth ddarparu'r Cynllun Strategol Rheoli Asedau

Tudalen 74



# Llywodraethu ac Atebolrwydd




Er mwyn sicrhau bod y cynllun yn cael ei wireddu, byddwn yn sefydlu trefniadau cadarn. Byddwn yn adolygu cylch gorchwyl y Grŵp Tir ac Asedau i sicrhau ei fod yn addas at ei ddiben.

Byddwn yn adrodd i'n Tîm Arweinyddiaeth a'n Pwyllgor Gwaith.

Bydd ein trefniadau'n sicrhau eglurder, atebolrwydd, cydymffurfiaeth a'r strwythur i fonitro cynnydd yn effeithiol.

This page is intentionally left blank

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Pwyllgor Gwaith<br>Cyngor |
| Dyddiadau: | Pwyllgor Gwaith – penderfyniad Deilydd Portffolio 29/4/24<br>Cyngor 21/5/2024 |
| Pwnc: | Swyddogaethau Dewis Lleol: Perfformiad |
| Aelod(au) Portffolio: | Cynghorydd Carwyn Jones |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | Lynn Ball<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro |
| Awdur yr Adroddiad:<br><br><br>Ffôn:<br>E-bost: | Lynn Ball<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro<br>01248 752586<br>lynnball@ynysmon.llyw.cymru |
| Aelodau Lleol: | Perthnasol i bob Aelod |

## A – Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau

1. Dynodi'r Hunanasesiad Corfforaethol a'r Asesiad Perfformiad gan Banel yn swyddogaethau i'w arfer gan y Pwyllgor Gwaith;

2. Cytuno y bydd Asesiad Perfformiad gan Banel cyntaf y Cyngor yn digwydd yn ystod 2025;

3. Awdurdodi penodi Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) i gefnogi'r Cyngor yn ystod ei Asesiad Perfformiad gan Banel cyntaf, ar gost o oddeutu £35,000 (llai'r gost o gyd-ddylunio'r fanyleb);

4. Awdurdodi'r Prif Weithredwr i wneud yr holl benderfyniadau a threfniadau gweithredol, ac eithrio mewn perthynas â phenodi panel annibynnol a sefydlu cylch gorchwyl ar ei gyfer; a fydd yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith.

**Cefndir Cyfreithiol**

Bydd y Cyngor yn ymwybodol o'r ddyletswydd i gyhoeddi Hunanasesiad Corfforaethol Blynyddol, yn ogystal ag un Asesiad Perfformiad gan Banel yn ystod tymor pum mlynedd y Cyngor. Mae'r ddyletswydd i gynhyrchu'r dogfennau hyn wedi'i nodi yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021("y Ddeddf").

Ar 25/04/2022 bu i'r Cyngor fabwysiadu newidiadau cyfansoddiadol a oedd yn diwygio cylch gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, ac o ganlyniad Cafodd Hunanasesiadau Corfforaethol ac Asesiadau Perfformiad gan Banel eu dynodi'n swyddogaethau a fyddai'n cael eu harfer gan y Cyngor. Y sefyllfa

| A – Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau |
|---|
| gyfreithiol bryd hynny oedd mai swyddogaethau i'w harfer gan y Cyngor oedd y rhain, ac nad oedd unrhyw ddisgresiwn lleol.<br><br>Fodd bynnag, mae CLlLC wedi cysylltu â phob Cyngor i rannu cyngor a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru (copi ar gael yn **Atodiad A**). Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau ei fod bellach o'r farn bod Hunanasesiadau Corfforaethol ac Asesiadau Perfformiad gan Banel yn swyddogaethau dewis lleol. Sy'n golygu y gallant fod yn gyfrifoldeb i'r Cyngor llawn neu'r Pwyllgor Gwaith.<br><br>O ystyried hyn, argymhellir bod penderfyniad yn cael ei wneud i gadarnhau ai'r Cyngor neu'r Pwyllgor Gwaith fydd yn gyfrifol am y swyddogaethau sydd wedi'u rhestru yn Adran 108 o'r Ddeddf; sef:-<br><br>a) adran 91(1) (adroddiad hunanasesiad);<br>b) adran 91(8) (ymateb i argymhellion ynglŷn ag adroddiad);<br>c) adran 92(1) (penodi panel asesiad perfformiad);<br>d) adran 93(1) (ymateb i adroddiad ar asesiad perfformiad gan banel);<br>e) adran 93(5) (ymateb i argymhellion ynglŷn ag ymateb i adroddiad gan banel);<br>f) adran 96(1) (ymateb i argymhellion gan Archwilydd Cyffredinol Cymru);<br>g) adran 96(5) (ymateb i argymhellion ynglŷn ag ymateb i Archwilydd Cyffredinol Cymru);<br>h) adran 102(2) (cais i weinidogion Cymru am gefnogaeth a chymorth).<br><br>**Ffactorau Perthnasol y dylid eu Hystyried**<br><br>• Nid yw'r gyfraith yn gwahaniaethu rhwng y Cyngor a'r Pwyllgor Gwaith o ran pwy fydd yn arfer y dyletswyddau hyn. Mae'r naill ddewis yn ddilys.<br><br>• Ni waeth pa gorff o'r Cyngor fydd yn ymgymryd â'r rôl wleidyddol, bydd angen yr un faint o dryloywder. Felly, bydd rhaid darparu agendau/adroddiadau/cyfarfodydd cyhoeddus/cofnodion/gweddarllediadau, ni waeth pwy sy'n arfer y swyddogaethau hyn, y Cyngor neu'r Pwyllgor Gwaith.<br><br>• Ni fydd rôl a phwerau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn newid; yn cynnwys y gofyniad i ddilyn argymhellion y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, neu gyhoeddi eglurhad os na chânt eu dilyn.<br><br>• Fe all y Cyngor ailedrych ar y penderfyniad ynglŷn â dynodi'r swyddogaethau hyn; yn amodol ar y rheol arferol o chwe mis.<br><br>• At ei gilydd, fodd bynnag, mae'r Swyddog Monitro yn argymell bod y ddwy swyddogaeth perfformiad yma'n cael eu harfer gan y Pwyllgor Gwaith. Mae hyn yn rhannol am resymau'n gysylltiedig ag atebolrwydd cyhoeddus a chorfforaethol ond yn bennaf oherwydd ymarferoldeb, fel y nodir isod.<br><br>**HUNANASESIAD CORFFORAETHOL** |

## A – Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau

- Pob blwyddyn mae'n rhaid i'r Hunanasesiad Corfforaethol gael ei gymeradwyo gan y Cyngor ar ffurf drafft cyn y gellir ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am sylwadau ac argymhellion. Yna, mae'r Hunanasesiad Corfforaethol yn mynd yn ôl i'r Cyngor er mwyn ystyried barn y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, ond yn bennaf er mwyn ystyried ac ymateb i unrhyw argymhellion ganddo a chynnig unrhyw welliannau ayb. Yna mae'r Hunanasesiad Corfforaethol yn cael ei gyhoeddi.

  Byddai'r broses yn llawer mwy effeithlon pe byddai'r swyddogaeth hon yn cael ei harfer gan y Pwyllgor Gwaith gan fod yn rhaid i'r Hunanasesiad Corfforaethol gael ei gyhoeddi a'i rannu â'r rheoleiddwyr cyn gynted â phosib wedi i'r flwyddyn ariannol berthnasol ddod i ben. Rydym wedi cyhoeddi dau Hunanasesiad Corfforaethol hyd yma ac mae'r amserlen wedi bod yn heriol. Mae risg y bydd ein Hunanasesiadau Corfforaethol wedi dyddio os na chânt eu cyhoeddi'n brydlon, ac mae'r cysylltiad rhwng y Cyngor a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn golygu ei bod hi'n amhosib osgoi'r oedi hwn.

  Fodd bynnag, gan fod y Pwyllgor Gwaith yn cwrdd yn rheolaidd a chan y bydd modd ymgynghori'n anffurfiol â'r Arweinydd/Aelod/au Portffolio drwy gydol y broses, gellir cyflymu'r amserlen ar gyfer cyhoeddi'r hunanasesiad. Dylid nodi hefyd y bydd modd galw penderfyniadau'r Pwyllgor Gwaith i mewn, ac y bydd modd i sgriwtini eu hatgyfeirio i'r Cyngor lle bo'n briodol.

**ASESIAD PERFFORMIAD GAN BANEL**

- Rhaid i bob cyngor drefnu Asesiad Perfformiad gan Banel o leiaf unwaith yn ystod tymor pum mlynedd y Cyngor. Mae'r gwaith hwn yn cael ei gwblhau gan banel annibynnol. Rhaid cyhoeddi adroddiad y panel o leiaf flwyddyn cyn yr etholiadau llywodraeth leol nesaf, sef Mai 2027. Proses ac nid digwyddiad yw'r Asesiad Perfformiad gan Banel a bydd rhaid gwneud penderfyniadau niferus a phellgyrhaeddol o'r cyfnod paratoi i gyhoeddi cyhoeddiadau'r panel.

  Mae copi o raglen generig CLlLC ar gael yn y fan yma lle ceir gwybodaeth fanwl ynglŷn â'r broses debygol. Mae'r broses yn un gynhwysol ac, ymysg eraill, bydd pob aelod o'r Cyngor yn cael ei gynnwys.

  Gan fod y broses yn cynnwys cymaint o wahanol elfennau nid yw'n addas i gael ei goruchwylio gan y Cyngor. Bydd rhaid i swyddogion dreulio llawer o amser yn paratoi ar gyfer yr Asesiad Perfformiad gan Banel ac ni fydd cynnal cyfarfodydd arbennig o'r Cyngor yn ychwanegu gwerth nac yn gwneud defnydd da o'n hadnoddau. Bydd penderfyniadau allweddol, megis y cylch gorchwyl, yn cael eu gwneud gan y Pwyllgor Gwaith a bydd modd galw'r penderfyniadau hyn i mewn.

| A – Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau |
|---|
| Bydd yr un gofynion yn berthnasol o ran tryloywder. Bydd penderfyniadau gweithredol yn cael eu dirprwyo i swyddogion ond mewn ymgynghoriad ag aelodau perthnasol o'r Pwyllgor Gwaith. Bydd hyn yn golygu bod cymorth a chyngor ar gael i swyddogion, a bydd yn ffordd o sicrhau deialog barhaus. Ni fyddai hyn yn bosibl pe byddai'n rhaid ymgynghori â'r Cyngor llawn yn barhaus.<br><br>Ni fyddai'n briodol i'r Cyngor ddirprwyo penderfyniadau i swyddogion gan ei bod hi'n hanfodol sicrhau perchnogaeth wleidyddol ar gyfer elfennau allweddol.<br><br>Opsiwn arall fyddai penodi gweithgor anffurfiol o'r Cyngor at ddibenion ymgynghori. Fodd bynnag, byddai hyn yn creu haen weinyddol ychwanegol, pan fo prosesau eisoes wedi'u sefydlu ar gyfer y Pwyllgor Gwaith a all gwrdd â gofynion y broses yn well. |

| B – Pa opsiynau eraill bu i chi eu hystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| Dim. Rhaid i'r Cyngor wneud penderfyniad yn seiliedig ar y cyngor a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru. |

| C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Mae'r penderfyniad hwn yn benderfyniad i'r Cyngor llawn, ond rhaid i'r Pwyllgor Gwaith ystyried yr holl newidiadau cyfansoddiadol arfaethedig a chyflwyno argymhellion i'r Cyngor (os oes ganddo unrhyw argymhellion i'w cynnig). |

| Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Nid yw'n berthnasol yn yr achos hwn gan y bydd y penderfyniad terfynol yn cael ei wneud gan y Cyngor. |

| D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Penderfyniad ar drefniadau llywodraethiant yw hwn yn bennaf. Mae'n ymwneud â swyddogaethau dewis lleol ac nid oes unrhyw oblygiadau cyllidebol. Fodd bynnag, |

| D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| gofynnir i'r Cyngor osod amserlen ar gyfer cwblhau ei Asesiad Perfformiad gan Banel cyntaf, ac i benodi CLILC i hwyluso'r gwaith hwn. Bydd y gost oddeutu £35,000. Mae Swyddog 151 y Cyngor eisoes wedi rhagweld y gost yma ac mae'r arian wedi cael ei glustnodi. Mae CLILC wedi hysbysu'r Cyngor yn ddiweddar ei fod wedi sicrhau cyllid gan y Llywodraeth a fydd yn talu'r costau cysylltiedig â gweithio â'r Cyngor i gyd-ddylunio'r fanyleb ar gyfer ei Asesiad gan Banel. Mae hyn yn debygol o leihau'r gyllideb a ragwelwyd er nid yw lefel y gostyngiad yn amlwg ar hyn o bryd. |

| Dd – Asesu'r effaith bosibl (os yw'n berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau/dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol? Os felly, sut? | |
| 3 | A ydym wedi bod yn gweithio ar y cyd â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod i bwy. | |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai yr effeithiwyd arnynt yn uniongyrchol gan y penderfyniad? Esboniwch sut, os gwelwch yn dda. | |
| 5 | Sylwch ar unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei chael ar y grwpiau a ddiogelir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad yn ei chael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | |
| 7 | Sylwch ar unrhyw effaith bosibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei chael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | |

| E – Gyda hwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithreder / Tîm Arweinyddiaeth (mandadol) | Cefnogol o’r argymhellion yn yr adroddiad |
| 2 | Cyllid / Adran 151 (mandadol) | Cefnogol o’r argymhellion yn yr adroddiad |
| 3 | Cyfreithiol / Swyddog Monitro (mandadol) | Awdur yr adroddiad |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | |
| 5 | Eiddo | |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) | |
| 7 | Caffael | |
| 8 | Sgriwtini | |
| 9 | Aelodau Lleol | |
| 10 | Eraill:<br><br>Pennaeth Proffesiwn AD a Thrawsnewid<br><br>Pennaeth Archwilio a Risg<br><br>Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd<br><br>Rheolwr Sgriwtini<br><br>Aelod Portffolio Corfforaethol a Gwasanaeth Cwsmer | I gyd yn gefnogol o’r argymhellion yn yr adroddiad |

| F - Atodiadau: |
|---|
| A – Cyngor CLlLC / Llywodraeth Cymru |

| Ff – Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am fwy o wybodaeth): |
|---|
| Mae’r adroddiad yn cynnwys dolenni i’r Ddeddf, yr Adroddiad a dderbyniwyd gan y Cyngor ar 25/04/22 a’r ‘cynnig’ o gymorth gan CLlLC. |

**ATODIAD A**

(Ystyried swyddogaeth dewis lleol: hunanasesiad ac asesiad perfformiad gan banel, Cyngor, 2023)

**Cyngor cyfreithiol gan Dîm Cyfreithiol Llywodraeth Cymru i Bennaeth Gwella CLlLC Mai 2023):**

Fel y trafodwyd, derbyniais gyngor gan y Gwasanaethau Cyfreithiol er mwyn cadarnhau ai'r Cyngor llawn neu'r Weithrediaeth ddylai gymeradwyo'r hunanasesiadau sy'n ofynnol dan adran 91 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Fel y trafodwyd yn flaenorol mae adran 13 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yn nodi'r canlynol:

*"Subject to any provision made by this Act or by any enactment which is passed or made after the day on which this Act is passed, any function of a local authority which is not specified in regulations under subsection (3) is to be the responsibility of an executive of the authority under executive arrangements."*

*[Nid yw'r rhan hon o'r ddogfen ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw]*

Fodd bynnag, mae adran 13(2) o Ddeddf 2000 yn darparu amod, sef "*Subject to any provision made by this Act or by any enactment which is passed or made after the day on which this Act is passed,"*.

*[Nid yw'r rhan hon o'r ddogfen ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw]*

Nid oeddwn yn ymwybodol yn flaenorol bod Adran 108 o Ddeddf 2021 yn nodi:

*"(1) Caniateir i swyddogaeth a roddir i brif gyngor o dan neu yn rhinwedd y Bennod hon (ac eithrio swyddogaethau a roddir yn benodol i bwyllgor llywodraethu ac archwilio) gael ei harfer gan y cyngor neu gan ei weithrediaeth, yn unol â phenderfyniad y cyngor. (tanlinellwyd gennyf i)*

*(2)Os yw prif gyngor yn penderfynu bod swyddogaeth a grybwyllir yn isadran (4) i'w harfer gan y cyngor, nid yw adran 101 o Ddeddf 1972 (trefniadau ar gyfer cyflawni swyddogaethau gan awdurdodau lleol) yn gymwys i'r swyddogaeth honno.*

*(3) Os yw prif gyngor yn penderfynu bod swyddogaeth a grybwyllir yn isadran (4) i'w harfer gan y weithrediaeth, nid yw adran 14 nac (yn ôl y digwydd) adran 15 o Ddeddf 2000 (cyflawni swyddogaethau gan weithrediaethau) yn gymwys mewn perthynas â'r swyddogaeth honno."*

Mae'r gofyniad i baratoi hunanasesiad yn adran 91 o Ddeddf 2021 yn dod o dan y Bennod y cyfeirir ati yn adran 108 ("Perfformiad, asesiadau perfformiad ac ymyrraeth: prif gynghorau").

Mae Adran 108(4) yn cynnwys adrannau 91(1) (adroddiad hunanasesiad) a 91(8) (ymateb i argymhellion ynglŷn ag adroddiad).

Felly, mae modd i'r holl swyddogaethau y cyfeirir atynt yn adran 91 gael eu harfer gan y cyngor neu'r weithrediaeth (neu'r ddau, ac eithrio swyddogaethau a roddir yn benodol i'r pwyllgor llywodraethu ac archwilio).

Yr wyf bellach wedi derbyn cadarnhad gan y Gwasanaethau Cyfreithiol bod adran 108 yn cynrychioli'r HOLL ddarpariaethau yn ymwneud â "pherfformiad, asesiadau perfformiad ac ymyrraeth: prif gynghorau" yn Neddf 2021. Felly, roedd y cyngor a roddwyd yn flaenorol ynglŷn â phwy ddylai benderfynu pryd y dylid cynnal asesiad gan banel yn anghywir. Fe all awdurdod lleol hefyd naill ai benodi'r cyngor llawn NEU'R Weithrediaeth i benderfynu pryd y bydd asesiadau gan banel yn cael eu cynnal. Ymddiheuraf am unrhyw ddryswch y mae hyn wedi'i achosi.